Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

# Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Ychwanegol

## Rhan 3 : Trosglwyddo

Mawrth 2007

**Cynnwys**


**Rhagair y Cadeirydd**

**Aelodau'r Pwyllgor**

| **Prif Adroddiad** | | | **Tudalen** |
|---|---|---|---|
| Adran 1 | - | Cyflwyniad | 1 |
| Adran 2 | - | Gwybodaeth Gefndir | 5 |
| Adran 3 | - | Ymgynghori a Thystiolaeth | 11 |
| Adran 4 | - | Cynllunio ar gyfer Trosglwyddo | 15 |
| Adran 5 | - | Trosglwyddo i Addysg Bellach ac Uwch | 25 |
| Adran 6 | - | Trosglwyddo i Gyflogaeth | 33 |
| Adran 7 | - | Materion o ran Iaith | 43 |
| Adran 8 | - | Trafnidiaeth | 47 |
| Adran 9 | - | Adnoddau | 51 |
| Adran 10 | - | Casgliad a Chrynodeb o Argymhellion | 57 |

| **Atodiadau -** | **Tudalen** |
|---|---|
| A. Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol | 67 |
| B. Rhestr o Bapurau a Thrawsgrifiadau Cyfarfodydd | 70 |
| C. Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 72 |
| Ch. Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad | 74 |
| D. Darnau o God Ymarfer AAA | 80 |
| Dd. Safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol - Trosglwyddo | 85 |
| E. Rhestr Termau | 87 |

**Rhagair y Cadeirydd**

Dyma'r trydydd adroddiad, a'r adroddiad terfynol ar adolygiad y Pwyllgor o anghenion addysgol ychwanegol. Roedd yr adroddiad cyntaf yn ymdrin â materion yn ymwneud ag adnabod ac ymyrryd yn gynnar a'r ail yn ymdrin â'r broses statudol ar gyfer asesu anghenion ychwanegol neu ddatganiadau.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar Bontio ac anghenion penodol pobl ifanc fel y maent yn gadael addysg uwchradd ac yn symud i addysg bellach neu addysg uwch, hyfforddiant neu waith. Mae'n hynod bwysig gwneud hyn yn iawn ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc. Fel arall gall y gwaith da a wnaed yn yr ysgol i'w helpu i wneud yn fawr o'u cyfleoedd addysgol gael ei wastraffu a gall bywydau ifainc gael eu difetha.

Un o'r ffyrdd mwyaf pwysig o wneud hyn yn iawn yw i'r holl asiantaethau perthnasol rannu gwybodaeth a chydweithio'n gyson. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o enghreifftiau o arferion da yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod nad yw cydweithio a rhannu gwybodaeth bob amser yn hawdd.

Fodd bynnag, yr ydym yn pryderu bod diffyg cydweithio'n aml rhwng asiantaethau, er gwaethaf bodolaeth llawer o ganllawiau, rhai ohonynt yn statudol, wedi eu hanelu at annog a chefnogi arferion da. Rhaid gwella'r dull o rannu gwybodaeth a chyllid ac mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael cefnogaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn gwella'r sefyllfa yr ydym yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad benodi gweithwyr allweddol a fydd yn helpu i gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd. I ategu hyn yr ydym hefyd yn gofyn am sefydlu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth briodol a'u bod yn deall y dewisiadau sy'n eu hwynebu yn llawn.

Nid oes digon o bobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol yn mynd ymlaen i gyflogaeth, yn enwedig y rhai hynny ag anableddau dysgu,. Gall cyfraddau cyflogaeth ymysg y grwpiau hyn fod mor isel â 5%. Nid yw hyn yn anochel. Clywsom fod ymdrechion ar y cyd mewn gwledydd eraill wedi llwyddo i wella cyfraddau cyflogaeth mwy na dengwaith, o bwyntiau cychwynnol tebyg.

Dyna pam ein bod yn argymell strategaeth i gynyddu niferoedd y bobl ifanc ag anghenion ychwanegol sy'n gallu cael swyddi arwyddocaol a boddhaus a'u cadw, fel y gall mwy ohonynt fynd ymlaen i fyw bywydau annibynnol a llwyddiannus. Yr ydym hefyd yn argymell penodi rhywun i hyrwyddo'r budd i gyflogwyr o gyflogi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Credwn y gall person o'r fath, yn enwedig os ydyw'n rhywun a all ennyn parch mawr o fewn y gymuned fusnes, roi canolbwynt, arweiniad ac ynni ychwanegol i'r strategaeth.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn fynegi fy niolchgarwch i bawb sydd wedi cyfrannu at hwn a rhannau cynharach yr adolygiad.  Hoffwn ddiolch hefyd i holl Aelodau'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am eu gwaith caled wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn i Jane Davidson AC y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac o ystyried natur drawsbynciol llawer o'r argymhellion, i Lywodraeth y Cynulliad yn ei gyfanrwydd.



**Peter Black AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Mawrth 2007

## Aelodau

# Y Pwyllgor Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau



Peter Black
Cadeirydd
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Christine Chapman
Llafur



Jeff Cuthbert
Llafur



Jane Davidson
Gweinidog y Cynulliad
Llafur



William Gaham
Plaid Geidwadol Cymru



Irene James
Llafur



Janet Ryder
Plaid Cymru
The Party of Wales



Owen John Thomas
Plaid Cymru
The Party of Wales

# Adran 1

# Cyflwyniad

## Adran 1 - Cyflwyniad

### Cefndir

1.1 Ym mis Gorffennaf 2003, gwnaethom benderfynu cynnal adolygiad polisi o anghenion addysgol arbennig (AAA) a chynnal yr adolygiad mewn tri cham. Ystyriodd ein hadroddiad cyntaf adnabod ac ymyrryd yn gynnar ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2004[1]. Ymatebodd Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad ar 25 Ionawr 2005[2]. Ystyriodd ail gam yr adolygiad y fframwaith asesiadau (datganiadau) statudol ar gyfer plant ag AAA a chyhoeddwyd adroddiad gennym ym mis Mai 2006[3]. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei hymateb ym mis Mehefin 2006[4].

1.2 Yn unol ag un o'r argymhellion[5] yn ein hadroddiad cam 2, byddwn fel arfer yn defnyddio'r termau anghenion addysgol ychwanegol neu anghenion ychwanegol yn hytrach nag anghenion addysgol arbennig neu anghenion arbennig o hyn ymlaen. Dim ond wrth gyfeirio'n uniongyrchol at ofynion statudol penodol neu gyhoeddiadau sy'n defnyddio'r derminoleg hon neu lle y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall y byddwn yn defnyddio'r termau olaf.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu trydydd cam yr adolygiad, sef y cam olaf ac yn ystyried materion o ran trosglwyddo; trosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach ac uwch a throsglwyddo i fyd gwaith. Hynny yw, anghenion penodol y myfyrwyr hynny ag anghenion addysgol ychwanegol sy'n gadael addysg uwchradd a'r problemau y gallent eu hwynebu wrth iddynt ddechrau addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu waith.

### Cylch Gorchwyl

1.4 Ym mis Mai 2006, gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer y cam hwn o'r adolygiad:

- *Adolygu'r trefniadau trosglwyddo i fyfyrwyr ôl-16 ag anghenion addysgol ychwanegol rhwng addysg uwchradd ac addysg bellach/uwch neu gyfleoedd hyfforddi gan gynnwys y Rhaglen Sgiliau Byw'n Annibynnol; nodi enghreifftiau o arfer da;*
- *Archwilio'r cyfleoedd cyflogaeth warchodol ac agored, gan gynnwys argaeledd lleoliadau gwaith, i ddysgwyr ag anghenion cymhleth ym mhob rhan o Gymru, yn enwedig ardaloedd gwledig;*

---

[1] Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes - Adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig - Rhan 1: Nodi ac Ymyrryd yn Gynnar - Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004
[2] http://new.wales.gov.uk/legacy_cy/organicabinet/content/statements/2005/250105-ellreport-w.doc
[3] Y Pwyllgor addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - Adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig - Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) - Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006
[4] http://new.wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/cabinetstatements2006/969678/?lang=cy
[5] Argymhelliad 3

- *Adolygu'r broses o gynllunio trosglwyddo o fywyd yn yr ysgol i fywyd fel oedolyn fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig ac effeithiolrwydd trefniadau gwaith aml-asiantaeth;*
- *Ymchwilio i bartneriaethau a chynllunio cydweithredol ar gyfer trosglwyddo rhwng sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus (ym maes hyfforddiant, cyflogaeth, gyrfaoedd ac iechyd), ac ag asiantaethau elusennol a gwirfoddol;*
- *Ystyried goblygiadau'r materion uchod o ran darpariaeth a chyfleoedd yn Gymraeg;*
- *Cynnig argymhellion i Weinidog y Cynulliad o ran sut y gellid gwella'r trefniadau trosglwyddo presennol.*

**Yr Adolygiad**

1.5 Rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2006, gwnaethom gasglu gwybodaeth am y pwnc hwn. Cawsom dystiolaeth uniongyrchol gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad ac ymgynghoriad ar-lein ar wahân. Cawsom nifer o bapurau i'w nodi gan gynnwys dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Yn ogystal, gwnaethom ymweliad ymchwiliol â Denmarc i gael dealltwriaeth ehangach o'r ffordd yr ymdrinnir â throsglwyddo yn rhyngwladol.

1.6 Ceir rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion hynny a roddodd dystiolaeth yn bersonol yn Atodiad A, a cheir rhestr o'r papurau a ystyriwyd gennym a chyswllt â thrawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn Atodiad B. Dangosir y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn Atodiad C a cheir dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn Atodiad Ch. Ceir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn Atodiad E.

# Adran 2

# Gwybodaeth Gefndir

## Adran 2 - Gwybodaeth Gefndir

### Ystadegau ar AAA yng Nghymru

2.1 Ym mis Ionawr 2006, roedd gan 3.2% o ddisgyblion ar gofrestri ysgolion yng Nghymru ddatganiadau AAA. Ymhlith awdurdodau addysg lleol, mae'r canrannau yn amrywio o 1.5% ym Mhen-y-bont ar Ogwr i 4.5% ym Mhowys.

2.2 Nid yw canran y disgyblion â datganiadau ar gofrestri ysgolion yn ystod y saith mlynedd diwethaf wedi newid, gan amrywio 0.2 y cant ar y mwyaf. Caiff bron tri chwarter o'r disgyblion â datganiadau eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd.

2.3 Lleihaodd nifer y disgyblion sydd newydd gael eu hasesu bod angen datganiad arnynt yn ystod 2005. Roedd angen datganiad ar 1,556 o ddisgyblion newydd eu hasesu o gymharu â 1,712 y flwyddyn flaenorol[6].

2.4 Cyllidebwyd y bydd cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth AAA yng Nghymru yn 2006-07 yn £288 miliwn[7]. Mae hyn 10.4% yn uwch na chyllideb y flwyddyn flaenorol.

2.5 Mae gwariant dirprwyedig i ysgolion arbennig yn cyfrif am 20.6% o gyfanswm y gwariant AAA a gyllidebwyd yn 2006-07. Mae dyraniadau tybiannol mewn ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd yn cyfrif am 35.7% arall o'r cyfanswm. Mae'r 43.7% sy'n weddill yn cynnwys arian a gedwir yn ganolog gan awdurdodau addysg lleol.

### Fframwaith Statudol

2.6 Amlinellir y fframwaith statudol presennol ar gyfer AAA yn Neddf Addysg 1996[8] a Deddf AAA ac Anabledd 2001[9]. Gosododd Deddf Addysg 1993[10] ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i gyhoeddi Cod Ymarfer a phennodd y pŵer i'w ddiwygio o bryd i'w gilydd. Daeth y Cod Ymarfer cyntaf i rym yn 1994. Ers hynny, mae'r hawliau a'r dyletswyddau a gynhwysir yn Neddf 1993 wedi'u cydgrynhoi yn Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol bellach yw'r pŵer i ddiwygio'r Cod Ymarfer yng Nghymru.

2.7 Darperir y diffiniad canlynol o Anghenion Addysgol Arbennig gan Adran 312 o Ddeddf Addysg 1996:

---

[6] Datganiad Ystadegol 75/2006 - *Pupils with Statements of Special Educational Needs, January 2006* (Saesneg yn unig)
[7] Datganiad Ystadegol 80/2006 - *Budgeted Expenditure On Special Educational Needs Provision: 2006-07* (Saesneg yn unig)
[8] *Education Act 1996* (Pennod 56) (Saesneg yn unig)
[9] *Special Educational Needs and Disability Act 2001* (Pennod 10) (Saesneg yn unig)
[10] *Education Act 1993* (Pennod 35) (Saesneg yn unig)

**Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu, sy'n gofyn i ddarpariaeth addysgol arbennig gael ei gwneud ar eu cyfer.**
Mae gan blant anhawster dysgu:

- Os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n llawer mwy na'r mwyafrif o'r plant o'r un oedran; neu
- Os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir fel arfer i blant o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl); neu
- Os ydynt o dan oedran ysgol gorfodol ac o fewn y diffiniad yn (a); neu (b) uchod neu y byddent pe na wnaed darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

**Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:**

- I blant dwy flwydd oed neu drosodd, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth addysgol a wneir fel arfer ar gyfer plant o'u hoedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr AALl, ac eithrio ysgolion arbennig yn yr ardal, neu sydd fel arall yn wahanol i'r ddarpariaeth addysgol honno;
- I blant o dan ddwy flwydd oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

2.8 Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002)[11] yn rhoi canllawiau ac yn nodi gweithdrefnau sydd â'r nod o alluogi plant a phobl ifanc ag AAA i gyrraedd eu potensial llawn, i gael eu cynnwys yn llawn yn eu cymunedau ysgol ac i drosglwyddo i fywyd fel oedolyn yn llwyddiannus. Mae'n cynnwys yr hawliau a'r dyletswyddau a gyflwynwyd gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 a'r Rheoliadau.

**Darpariaethau cyfreithiol yn ymwneud â throsglwyddo**

2.9 Cynhwysir y system gyfreithiol sy'n rheoli darpariaeth i blant ag anawsterau dysgu mewn ysgolion hefyd yn Rhan IV o *Ddeddf Addysg 1996*. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau gan gynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi a diwygio Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau ymarferol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sydd â dyletswydd i ystyried y Cod;
- Darparu ar gyfer rheoliadau a fydd yn pennu pa mor aml y cynhelir adolygiadau o anghenion addysgol arbennig.

2.10 Mae *Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002*[12] yn gwneud darpariaeth fanwl o ran sut y dylai awdurdod addysg lleol

[11] Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru - Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2002
[12] *Education (Special Educational Needs) (Wales) Regulations 2002* OS 2002/152 (Cy20) (Saesneg yn unig)

gynnal adolygiad blynyddol o dan adran 328 o *Ddeddf Addysg 1996*. Mae'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol anfon rhestrau cyfansawdd o ddisgyblion y mae angen adolygiadau blynyddol arnynt at benaethiaid ac awdurdodau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol cyn pob tymor ac i'r Gwasanaeth Gyrfaoedd bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau sicrhau y caiff datganiadau eu diwygio erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn y mae'r plentyn yn trosglwyddo rhwng camau gwahanol yn yr ysgol. Gwneir darpariaeth arbennig o ran adolygiadau lle mai dyma'r adolygiad cyntaf ar ôl i blentyn ddechrau'r degfed flwyddyn o addysg orfodol sy'n cynnwys darpariaeth bod yn rhaid i'r pennaeth lunio cynllun trosglwyddo. Mae'r *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig* yn nodi'r gofynion ar gyfer cynllunio trosglwyddo yn fwy penodol.

2.11 Mae Adran 140 o *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000*[13] yn rhoi dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud trefniadau i asesu pobl ifanc, o dan 19 oed, sydd â datganiadau angen addysgol arbennig, lle y mae'n credu eu bod yn debygol o adael yr ysgol i barhau ag addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu i ymgymryd ag addysg uwch. Mae'n rhaid cynnal yr asesiad yn ystod y flwyddyn olaf o addysg orfodol a bydd yn nodi anghenion dysgu unigolyn a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w diwallu.

2.12 Mae Adran 140 hefyd yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gynnal asesiad o unrhyw bobl ifanc o dan 25 oed lle yr ymddengys y gall fod ganddynt anawsterau dysgu a lle y maent yn ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu'n debygol o wneud hynny neu ymgymryd ag addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gellir cynnal asesiadau lle y mae pobl ifanc sy'n parhau mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 yn datblygu anawsterau dysgu yn fuan cyn neu ar ôl gadael yr ysgol ac felly nid oes datganiad AAA ganddynt. Mae'r pŵer hwn yn gymwys mewn perthynas â phobl hyd at 25 oed er mwyn galluogi asesiadau i fod yn gymwys drwy gydol cwrs.

2.13 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arfer y ddyletswydd hon drwy ei gontract blynyddol â chwmnïau Gyrfa Cymru, ac eithrio lle y mae person ifanc ag anawsterau dysgu yn dilyn cwrs addysg uwch yng Nghymru eisoes. O dan yr amgylchiadau hyn, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn i'r sefydliad addysg uwch berthnasol drefnu'r asesiad, naill ai drwy ei Wasanaeth Gyrfaoedd AU ei hun neu drwy lunio contract â Gyrfa Cymru.

[13] *Learning and Skills Act 2000* (Pennod 21) (Saesneg yn unig)

Adran 3

Ymgynghori a Thystiolaeth

## Adran 3 - Ymgynghori a Thystiolaeth

### Ymgynghoriad

3.1 Anfonwyd holiaduron ymgynghori i dros 250 o sefydliadau ac unigolion â diddordeb yn y maes hwn, i sampl o 10% o ysgolion uwchradd, i bob ysgol arbennig ac i bob Coleg Addysg Bellach a Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Lansiwyd yr ymgynghoriad yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe ym mis Awst 2006 a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg a thaflenni cyhoeddusrwydd. Yn ogystal, trefnwyd fforwm trafod ar-lein a gafodd gyhoeddusrwydd hefyd drwy ddatganiad i'r wasg a thrwy ysgrifennu at bawb a oedd wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

3.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Awst a mis Hydref 2006 a chafwyd 113 o ymatebion i'r holiadur ymgynghori. Yr hyn a berodd siom oedd mai dim ond dau ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad ar-lein.

3.3 Amlygodd yr ymatebion nifer o feysydd sy'n peri pryder. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn pryderu'n bennaf am ariannu cyrsiau a lleoliadau gwaith a'r ffaith nad oedd maes ariannu yn glir. Roeddent yn pryderu am gyfleoedd a dewisiadau cyfyngedig a disgwyliadau isel. Roedd colli rhwydweithiau cymorth a gofal bugeiliol, wrth i ddisgyblion adael addysg uwchradd brif ffrwd yn peri pryder. Cyfeiriwyd at ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy tuag at gynllunio trosglwyddo a phryderon penodol eraill ynghylch amseru a chynllunio. Amlygwyd yr angen i gael gwybodaeth a chysylltiadau gwell a mwy ystyrlon hefyd. Ceir dadansoddiad llawn o'r ymatebion yn Atodiad Ch.

### Tystiolaeth

3.4 Cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion. Nodir yr holl faterion a godwyd ganddynt yn fanwl yn y papurau a gyflwynwyd ganddynt ac yn eu tystiolaeth lafar. Er mwyn bod yn gryno, ni fwriedir ailadrodd y wybodaeth hon yn yr adroddiad hwn. Rhestrir yr unigolion a'r sefydliadau hynny a roddodd dystiolaeth yn bersonol yn Atodiad A, a rhestrir y papurau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn Atodiad B, a gellir eu gweld, ynghyd â thrawsgrifiadau gair am air o bob cyfarfod, ar wefan y Cynulliad yn www.wales.gov.uk/keypubassemedlearnskills/index.htm. Cynhwysir adroddiad ar ein hymweliad ymchwiliol â Denmarc yn y papurau hyn hefyd.

3.5 Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad neu a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor.

# Adran 4

# Cynllunio ar gyfer Trosglwyddo

## Adran 4 - Cynllunio ar gyfer Trosglwyddo

### Ymarfer a Chanllawiau

Cod Ymarfer AAA

4.1 Mae Adran 2 yn nodi'r cefndir statudol a'r amrywiaeth o ganllawiau sydd ar gael. Ceir darn o'r Cod Ymarfer AAA sy'n nodi'r canllawiau llawn ar drosglwyddo yn Atodiad D. Crynhoir rhai o'r canllawiau allweddol fel a ganlyn:

- ym mlwyddyn 9, gofyniad i lunio cynllun trosglwyddo sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio ar gyfer proses y person ifanc o drosglwyddo i fywyd fel oedolyn ac adolygu'r cynllun trosglwyddo yn flynyddol (o leiaf) o hynny ymlaen;
- Penaethiaid sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r broses o roi'r cynllun ar waith. Mae Gyrfa Cymru yn arwain y broses weithredu mewn perthynas â throsglwyddo i ddysgu pellach neu gyflogaeth;
- Mae'n rhaid gwahodd Gyrfa Cymru i'r adolygiad blynyddol ym mlwyddyn 9; (er bod yn rhaid iddynt wneud pob ymdrech i fod yn bresennol, nid yw'n ofyniad);
- dylai pob asiantaeth dan sylw gydnabod eu cyfrifoldebau ariannu a chynllunio a chyfrannu arian yn unol â hynny;
- dylai barn y bobl ifanc dan sylw chwarae rhan allweddol wrth lunio'r cynllun; efallai y bydd angen amrywiaeth o asiantaethau er mwyn cefnogi'r person ifanc yn y broses hon;
- ym mlwyddyn 9, mae'n ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol drefnu asesiad amlddisgyblaethol a chynhyrchu cynlluniau gofal â'r rhai sydd ag anghenion arbennig sylweddol; mae'n rhaid i weithiwr cymdeithasol fynd i'r cyfarfod adolygu a chyfrannu at y broses o lunio'r cynllun trosglwyddo pan fydd gan y person ifanc orchymyn gofal, pan fydd yn cael ei letya gan awdurdod lleol neu pan fydd "mewn angen";
- dylai gweithwyr proffesiynol iechyd roi cyngor ar lunio'r cynllun trosglwyddo a dylent hwyluso (yn amodol ar ganiatâd) y broses o drosglwyddo cofnodion a gwybodaeth;
- dylai awdurdodau lleol geisio cytundeb pobl ifanc a rhieni i wybodaeth gael ei throsglwyddo ac egluro'r pwysigrwydd y caiff hyn ei wneud a'i ddymunoldeb.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol

4.2 Yn ogystal â'r Canllawiau Statudol uchod, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl

Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru yn gyntaf ym mis Medi 2005[14]. Mae'r Fframwaith yn nodi ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i'w disgwyl a'u cael yng Nghymru.

4.3 Mae'r fframwaith yn cynnwys 21 o safonau a 203 o gamau gweithredu allweddol. Mae'r rhain yn seiliedig ar 42 Erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc. O'r camau gweithredu allweddol, rhoddir blaenoriaeth i weithredu 82 ohonynt[15] erbyn diwedd mis Mawrth 2006. Mae'r camau gweithredu allweddol eraill yn rhai datblygu a'r nod yw eu gweithredu dros 10 mlynedd rhaglen y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

4.4 Mae safon benodol sy'n ymdrin â throsglwyddo. Dywed:

> *Mae pobl ifanc sydd eisiau gwasanaethau parhaus, fel rhai sy'n anabl neu'n dioddef salwch cronig, pobl ifanc sydd â salwch neu anhwylderau meddyliol parhaus, pobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a rhai sy'n gadael gofal, yn cael cynnig pob math o wasanaethau amlasiantaeth wedi'u cydgysylltu yn unol â'r anghenion a aseswyd – fel eu bod yn pontio'n effeithiol o blentyndod i fyd oedolion.*

4.5 Mae'r Safon yn nodi chwe cham gweithredu allweddol i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG a Phartneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc (gweler Atodiad Dd). Yn gryno, y camau gweithredu hyn yw:

- system rhyngsefydliadol i nodi'r plant y bydd angen cymorth trosglwyddo i wasanaethau oedolion arnynt;
- penodi gweithiwr trosglwyddo allweddol pan fydd y plentyn yn 14 oed i gydgysylltu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau;
- rhoi gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau;
- gweithdrefnau asesu unedig ac un cynllun trosglwyddo sefydliadau ar y cyd;
- adolygu'r cynllun trosglwyddo yn rheolaidd (o leiaf bob blwyddyn);
- trosglwyddo gwybodaeth wedi'i chyfuno i Bartneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc er mwyn llywio gwaith cynllunio strategol.

Fodd bynnag, nid oes angen gweithredu'n gynnar ar unrhyw un o'r camau gweithredu hyn y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt.

**Lledaenu Arfer Da**

[14] *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth – Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2005*
[15] Y geiriau a ddefnyddir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ei hun yw "wedi'u nodi".

4.6 Felly, mae amrywiaeth helaeth o ddarpariaeth a chanllawiau statudol sydd â'r nod o annog a chefnogi arfer da ym maes cynllunio ar gyfer trosglwyddo. Er gwaethaf hyn, rydym wedi clywed nad yw pobl ifanc wedi paratoi'n ddigonol yn aml ar gyfer adolygiadau, y gall fod diffyg cydgysylltu rhwng asiantaethau, y gellid gwella'r broses o rannu gwybodaeth a chyllidebau a bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn aml yn teimlo na chânt gymorth wrth iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol.

4.7 Clywsom hefyd, gan Estyn[16] yn bennaf, bod amrywiaeth o arfer da sydd wedi sicrhau cyfnod trosglwyddo didrafferth i ddysgu pellach ac sydd wedi paratoi pobl ifanc yn dda ar gyfer dysgu mwy hunangynhaliol a byw'n annibynnol. Cytunwn ag argymhelliad Estyn y gellid gwneud mwy i ledaenu'r arfer da hwn er mwyn ei ymgorffori'n ehangach.

**[1] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu dulliau o ledaenu arfer da o ran trefniadau trosglwyddo i ddysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i ddatblygu'r dulliau hyn o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.**

**Gwella Canllawiau**

4.8 Fel y nodwyd uchod, mae llawer o ddarpariaeth statudol, canllawiau arfer da a pholisïau uchelgeisiol sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i drosglwyddo i ddysgu pellach a bywyd fel oedolyn. Yn ogystal, mae nifer o sefydliadau a all neu a ddylai gymryd rhan mewn gwaith cynllunio trosglwyddo. Ymhlith y rhain mae ysgolion, Awdurdodau Addysg Lleol, Gyrfa Cymru, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, Partneriaethau'r Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Colegau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch.

4.9 Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ysgrifenedig[17] cydnabu'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, er y dylai'r fframwaith deddfwriaethol sicrhau trosglwyddo di-dor, fod angen gwaith pellach i sicrhau ymagwedd gyson ledled Cymru.

4.10 Rydym hefyd yn pryderu bod y canllawiau helaeth, ynghyd â'r amrywiaeth eang o sefydliadau y gall fod angen iddynt gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio trosglwyddo, wedi arwain at system a all fod yn rhy gymhleth a biwrocrataidd, er gwaethaf bwriadau da. Er y gall fod angen diwygio a gwella'r canllawiau mewn ffyrdd penodol, credwn hefyd fod angen eu symleiddio a'u hegluro. Wrth wneud hynny, credwn fod dadl gref dros lunio canllawiau mewn ffordd sy'n llawer haws eu deall i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ac, yn fwy penodol, pobl ifanc a'u rhieni

[16] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – 7 Mehefin 2006. Papur ELLS(2) 09-06(p3)
[17] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – 7 Rhagfyr 2006. Papur ELLS(2) 16-06(p3)

neu eu gofalwyr. Credwn y byddai hyn yn gyson â'r ymagwedd a amlinellwyd yn adolygiad diweddar Beecham[18] o'r gwasanaethau cyhoeddus lleol a ddarperir yng Nghymru.

**[2] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu, ar draws amrywiaeth ei chyfrifoldebau, y meysydd canllawiau a pholisi gwahanol o ran cynllunio trosglwyddo i weld a ellir eu cyfuno mewn ffordd symlach, cliriach a mwy hygyrch gan ystyried yr argymhellion yn adolygiad Beecham o'r gwasanaethau cyhoeddus lleol a ddarperir yng Nghymru.**

### Amseru a Chymryd Rhan

4.11 Mae'r broses o lunio cynllun trosglwyddo yn ystod blwyddyn 9 yn rhan allweddol o'r trefniadau presennol a nodir yn y Cod Ymarfer AAA. Er gwaethaf hyn, rydym wedi clywed nad yw'r broses adolygu trosglwyddo mor effeithiol ag y dylai fod ac y gall fod yn gyfyng ac aneffeithiol. Yn benodol, mae barn gref y dylai'r gwaith cynllunio ddechrau ar ddechrau blwyddyn 9 neu hyd yn oed yn gynharach (mor gynnar â blwyddyn 6 o bosibl) er mwyn iddo fod yn effeithiol.

4.12 Rydym hefyd wedi clywed cwynion yr ymddengys nad yw adolygiadau trosglwyddo yn cael fawr ddim effaith ar rai pobl ifanc a'u teuluoedd neu efallai nad ydynt hyd yn oed yn sylweddoli eu bod wedi cael adolygiad. Mynegwyd pryder hefyd nad yw pobl ifanc bob amser yn cymryd rhan mewn adolygiadau trosglwyddo a, hyd yn oed pan fyddant yn cymryd rhan, efallai nad ydynt wedi paratoi'n ddigonol i fanteisio i'r eithaf arnynt.

4.13 Nid yw'n glir ychwaith a yw'r asiantaethau y mae angen iddynt gymryd rhan mewn adolygiadau trosglwyddo bob amser yn bresennol neu'n cymryd rhan. Roeddem yn arbennig o bryderus o ddysgu nad yw gwasanaethau cymdeithasol oedolion, y bydd angen iddynt wneud darpariaeth i'r person ifanc yn ddiweddarach mewn bywyd yn aml, yn rhan o'r gwaith cynllunio trosglwyddo am nad oedd y person ifanc "ar eu llyfrau" ar y pryd. Teimlwn hefyd fod dyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol i geisio rhagweld anghenion yn y dyfodol yn ogystal ag ymateb i anghenion presennol.

4.14 Yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd, cynigiwn yr argymhellion canlynol

[18] Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd - Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru - Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006.

**[3] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau y cynhelir yr adolygiad trosglwyddo ar ddechrau blwyddyn 9 ac erbyn diwedd tymor yr hydref fan bellaf. Os oes rhesymau da dros wneud hynny, yna dylid cynnal adolygiadau mewn blynyddoedd cynharach.**

**[4] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau y caiff pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ymlaen llaw er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar y broses adolygu trosglwyddo.**

**[5] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn ei gwneud yn glir y dylai pobl ifanc gymryd rhan bob amser yn y gwaith o lunio'r cynllun trosglwyddo, oni bai bod ffactorau clir a fyddai'n atal hyn.**

**[6] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys Gyrfa Cymru a gwasanaethau cymdeithasol, fod yn bresennol yn yr adolygiad trosglwyddo a chyfrannu ato.**

**[7] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol asesu anghenion posibl y person ifanc fel oedolyn yn ogystal ag asesu anghenion mwy uniongyrchol.**

**Strwythurau Cymorth**

Gweithwyr Allweddol

4.15 Amlinellwyd uchod rai o'n pryderon ynghylch amseru adolygiadau a sut y gallwn sicrhau bod y rhai y mae angen iddynt fod yn rhan o'r broses yn cymryd rhan lawn. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi clywed galwadau am ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn fwy tuag at gynllunio trosglwyddo gan gynnwys yr angen i benodi gweithwyr trosglwyddo allweddol i helpu i arwain a chefnogi pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo i ddysgu pellach neu waith.

4.16 Argymhellodd[19] ein hadroddiad ar Ran 2 o'r adolygiad hwn (ynglŷn â datganiadau) y dylai AALlau benodi gweithwyr allweddol fel ffordd o gefnogi rhieni a sicrhau ymagwedd fwy amlddisgyblaethol. Cynigiwyd yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun penodol y broses datganiadau. Yn ei hymateb, derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad a thynnodd sylw at gamau gweithredu allweddol yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ynghylch penodi gweithwyr allweddol. Fodd bynnag, credwn ei bod yn ymhlyg y dylai'r ymagwedd a amlinellwyd gennym fod yn rhan o'r

[19] Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – Adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig – Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) – Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006 - Argymhelliad 11.

strwythur cymorth i bobl ifanc drwy gydol eu haddysg. Er mwyn gwneud yr argymhelliad yn glir:

**[8] Rydym yn argymell y dylid penodi gweithwyr allweddol i helpu pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion ychwanegol, eu rhieni a'u gofalwyr, drwy gydol eu haddysg.**

**[9] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad lunio fframwaith o ganllawiau, cyfrifoldeb proffesiynol a hyfforddiant proffesiynol priodol ar gyfer penodi gweithwyr allweddol ac y byddant yn gweithredu yn unol ag ef.**

4.17 Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hefyd yn cynnwys y cam gweithredu allweddol canlynol:

> *"5.33 Mae gweithiwr trosglwyddo allweddol yn cael ei benodi ar gyfer pob person ifanc 14 oed. Eu cyfrifoldeb nhw yw gofalu bod pobl ifanc, eu teuluoedd a'r holl asiantaethau perthnasol yn gysylltiedig â'r broses gynllunio, fel sy'n briodol. Mae'r gweithiwr trosglwyddo allweddol yn cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses bontio, a bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn cysylltu â'r person ifanc tan ei fod yn 25 oed.*

4.18 Fel y nodwyd yn gynharach, ni roddir blaenoriaeth i weithredu ar hyn yn gynnar; mae angen ei weithredu dros gyfnod 10 mlynedd y Fframwaith. Mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth wedi dadlau y dylid ei weithredu'n gynharach. Cytunwn â'r farn honno. Rydym yn sylweddoli bod anawsterau, yn bennaf y goblygiadau ariannol posibl, ond credwn y gall y gweithiwr allweddol wneud gwahaniaeth mawr i brofiad pobl ifanc, eu rhieni neu eu gofalwyr o ymdrin â'u hanghenion ychwanegol a manteisio i'r eithaf ar y cymorth proffesiynol sydd ar gael iddynt.

**[10] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi blaenoriaeth i gam gweithredu allweddol 5.33 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn ac y dylai ystyried gwneud yr un peth ar gyfer camau gweithredu allweddol eraill sy'n ymwneud â phenodi gweithwyr allweddol.**

<u>Gwasanaethau Eiriolaeth</u>

4.19 Mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth wedi pwysleisio'r angen i gael gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i gyflwyno'r opsiynau a sicrhau bod pobl ifanc, yn ogystal â'u rhieni a'u gofalwyr, yn cael gwybodaeth briodol am y dewisiadau sydd ar gael iddynt ac yn eu deall yn llawn.

Cytunwn y byddai gwasanaethau eiriolaeth o gymorth arbennig yn ystod y broses o drosglwyddo i ddysgu pellach ac i waith.

4.20 Yn ein hadroddiad ar Ran 1 o'r adolygiad hwn (adnabod ac ymyrryd yn gynnar), argymhellwyd[20] y dylid ariannu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor gan Lywodraeth y Cynulliad ar y pryd ac rydym wedi nodi o adroddiadau monitro diweddarach gan y Gweinidog bod gwaith ar y gweill i weithredu'r argymhelliad. Cydnabyddwn nad yw hwnnw'n fater syml ond serch hynny, credwn fod yn rhaid gwneud cynnydd cynnar yn awr er mwyn gwireddu'r argymhelliad.

**[11] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i roi blaenoriaeth i gyflwyno gwasanaeth eiriolaeth annibynnol a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i wneud hynny o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.**

Ymagwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

4.21 Rydym yn arddel barn gref y dylai fod gan bobl ifanc, drwy gydol eu haddysg ac yn ystod y broses o drosglwyddo i ddysgu pellach a bywyd fel oedolyn, yr hawl i gael eu trin fel oedolion ac y dylid sicrhau y diwellir eu hanghenion a'u pryderon penodol ac y cynllunnir ar eu cyfer. Mae ymagwedd "sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn" yn golygu gwrando ar bobl ifanc er mwyn sicrhau mai hwy yw canolbwynt gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ac mai eu hanghenion hwy a ddiwellir. Mae'r ymagwedd hon yn cydymffurfio'n helaeth â'r model cymdeithasol o anabledd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

4.22 Credwn y bydd llawer o'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn ac mewn adroddiadau cynharach (yn arbennig ein hargymhellion mewn perthynas â gweithwyr allweddol a gwasanaethau eiriolaeth) yn helpu i greu amodau lle y caiff ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ei mabwysiadu i fwy o bobl ifanc.

4.23 Rydym wedi nodi bod y Cod Ymarfer AAA yn nodi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn tuag at ddarparu gwasanaethau fel un o amcanion gwaith rhyngasiantaethol. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn cyfeirio'n helaeth at gamau gweithredu sy'n cefnogi dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant a theuluoedd.

4.24 Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod anghenion yr unigolyn wedi'u rhoi wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau eto. Er y bydd gweithredu safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn raddol yn helpu, credwn fod angen gwneud mwy i ymgorffori ymagwedd

[20] Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes - Adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig - Rhan 1: Nodi ac Ymyrryd yn Gynnar -Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004 - Argymhelliad 3.27

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae datblygu dulliau o ledaenu arfer da yn un agwedd ar hyn ond credwn hefyd fod angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Cod Ymarfer AAA a chanllawiau perthnasol eraill.

**[12] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r Cod Ymarfer AAA a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at ddarpariaeth anghenion addysgol ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer trosglwyddo i ddysgu pellach a bywyd fel oedolyn.**

## Rhannu Gwybodaeth

4.25 Un o'r ffactorau sy'n allweddol i gynllunio trosglwyddo effeithiol yw sicrhau bod yr asiantaethau gwahanol dan sylw yn rhannu gwybodaeth berthnasol am ofynion cymorth pobl ifanc yn gyson. Nid yw hyn yn syml bob amser. Mae angen ystyried hawliau unigolion, yn enwedig pan fyddant yn cynnwys dulliau diogelu cyfreithiol pwysig megis y rhai a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data[21] neu mewn mannau eraill mewn statud. Cawsom dystiolaeth y gall y broses o rannu gwybodaeth fod yn anghyson a cheir amrywiadau mawr mewn arfer. Nodwyd yn benodol bod y Ddeddf Diogelu Data yn cael ei chymhwyso'n anghyson gan ddarparwyr gwasanaethau gwahanol.

4.26 Gall problemau penodol godi hefyd pan fydd pobl ifanc yn symud ar draws ffiniau cenedlaethol neu ffiniau awdurdodau lleol neu pan dorrwyd ar draws eu haddysg.

**[13] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori'n eang ar ganllawiau clir o ran arfer gorau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru a, lle y bo'n briodol, ag asiantaethau y tu allan i Gymru a'u gweithredu wedi hynny.**

[21] Data Protection Act 1998 (Pennod 29) (Saesneg yn unig)

Adran 5

# Trosglwyddo i Addysg Bellach ac Uwch

## Adran 5 - Trosglwyddo i Addysg Bellach ac Uwch

### Lledaenu Arfer Da

5.1 Yn ddi-au, gall mynd i'r coleg neu'r brifysgol gael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Ar wahân i wella eu sgiliau a'u cyrhaeddiad addysgol, gall y profiad hefyd helpu pobl ifanc i fod yn fwy hunanhyderus a'u paratoi i fyw'n annibynnol. Gall hefyd helpu i feithrin rhwydweithiau cymdeithasol a datblygu diddordebau ehangach.

5.2 Rydym wedi clywed tystiolaeth o arfer da sydd ar led sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar ddysgu pellach yn y coleg neu yn y brifysgol. Er ein bod yn credu bod lle i wneud gwelliannau a newidiadau systemig, rydym yn cymeradwyo'r arfer da sy'n bodoli ac yn talu teyrnged i'r gwaith da a wneir yn y rhan fwyaf o'n colegau a'n prifysgolion. Credwn fod lledaenu'r arfer da hwn yr un mor berthnasol yma ag y mae mewn perthynas ag argymhelliad [1] yn adran 4 o'r adroddiad hwn.

### Addysg Bellach

5.3 Ym maes addysg bellach, er gwaethaf yr amrywiaeth o arfer da a ddygwyd i'n sylw, rydym hefyd wedi clywed bod diffygion mewn rhai meysydd o ran darpariaeth ac arfer. Cynhyrchodd Estyn ddau adroddiad manwl yn 2004 a 2005[22] sy'n cynnig amrywiaeth o argymhellion sydd wedi'u hanelu at ddarparwyr gwasanaethau. Amlygodd yr adroddiadau y gwahaniaeth cadarnhaol y mae mynd i'r coleg yn ei wneud. Fodd bynnag, ymhlith y diffygion a nodwyd ac a grynhowyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Estyn[23] roedd:

- nid ystyrir dysgu blaenorol bob amser ac yn sgîl hyn, ceir lleoliadau cyrsiau amhriodol;
- ni cheir llawer o gyfleoedd dilyniant i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu ddwys;
- ni chesglir digon o ddata am gyrchfannau dysgwyr a'u canlyniadau yn y gwaith ac mewn hyfforddiant. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd monitro cynnydd y dysgwyr a pha mor dda y cânt eu paratoi i gyfateb i anghenion cyflogwyr;

---

[22] "Dewis y camau nesaf: paratoi dysgwyr mewn Medrau Byw'n Annibynnol mewn colegau addysg bellach ar gyfer eu trosglwyddo i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach" - Estyn 2004
"Llwyddiant i bawb: Cymorth mewn colegau addysg bellach a chwmnïau dysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl 16-19 oed gydag anghenion dysgu ychwanegol" – Estyn 2005
[23] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – 7 Mehefin 2006. Papur ELLS(2) 09-06(p3) (Saesneg yn unig)

- mewn Colegau Addysg Bellach prif ffrwd, gall fod diffyg cymorth iechyd i ddysgwyr ôl-16 ym meysydd ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith;
- nid yw'r rhai ag ymddygiad heriol bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i reoli eu hymddygiad;
- ceir mynediad cyfyngedig i wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

5.4 Ategwyd llawer o'r pwyntiau hyn mewn tystiolaeth arall. Yn arbennig, rydym yn bryderus bod dilyniant o fewn darpariaeth AB yn aml yn cael ei ystyried yn ochrol gydag ymdeimlad o "ladd amser" yn hytrach na gwaith paratoi gwirioneddol ar gyfer byw'n annibynnol. Gall cynllunio a chyfathrebu gwael rhwng asiantaethau, fel y'i hamlinellwyd yn yr adran flaenorol o'r adroddiad hwn, hefyd gael effaith negyddol ar brofiad y person ifanc o goleg. Credwn fod ein hargymhellion ar gyfer penodi gweithwyr allweddol, a fydd yn gweithio gyda'r person ifanc drwy gydol y broses o drosglwyddo o'r ysgol i addysg bellach (neu addysg uwch a gwaith) yn helpu i sicrhau gwelliannau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, cynigiwn yr argymhellion canlynol hefyd.

**[14] Rydym yn argymell y dylid pennu nodau dilyniant clir a chyson fel rhan o'r cynllun trosglwyddo ym mlwyddyn 9 o addysg uwchradd ac y dylid cyfleu'r nodau yn glir i Golegau Addysg Bellach a'u hadolygu'n flynyddol.**

**[15] Rydym yn argymell, fel yr awgrymwyd gan Estyn, y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu dull safonol o olrhain anghenion a sgiliau dysgwyr i'w ddefnyddio gan Golegau Addysg Bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau bod sgiliau dysgwyr ac anghenion cyflogwyr yn cyfateb i'w gilydd yn dda.**

5.5 Mae diffyg cymorth a gwasanaethau iechyd a therapiwtig arbenigol mewn colegau yn peri pryder hefyd. Nid yw'n glir i ni pa un ai arian sy'n achosi'r broblem hon neu pa un a oes ffactorau mwy cymhleth sy'n ei hachosi. Fodd bynnag, er mwyn i bobl ifanc fanteisio i'r eithaf ar addysg bellach, mae'n hanfodol eu bod yn cael cymorth priodol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a therapi.

**[16] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'r rhesymau pam y gallai fod diffyg gwasanaethau iechyd a therapiwtig mewn Colegau Addysg Bellach a chymryd camau i wella'r ddarpariaeth.**

5.6 Mynegwyd pryder hefyd am sefyllfa pobl ifanc nad oes ganddynt ddatganiad anghenion addysgol arbennig, er bod ganddynt, o bosibl, anghenion ychwanegol sydd wedi'u nodi. Ystyriodd ein hadroddiad diwethaf drefniadau asesu statudol. Nid ydym am ailadrodd y materion

hynny yma eto yn fanwl ond credwn y dylai ein hargymhelliad[24] i sefydlu trefniadau asesu statudol newydd, yn seiliedig ar gofnod o angen a gaiff ei asesu'n barhaus, barhau i mewn i addysg bellach ac uwch a dysgu seiliedig ar waith.

**[17] Rydym yn argymell y dylai'r broses o ddatblygu asesiadau statudol yn seiliedig ar gofnod o angen a gaiff ei asesu'n barhaus barhau ar ôl 16 ac y dylid eu defnyddio fel y brif ffordd o asesu anghenion mewn addysg bellach ac uwch a dysgu seiliedig ar waith.**

**Colegau Arbenigol**

5.7 Yn eu tystiolaeth[25], dadleuodd SCOPE ac Ysgol Craig-y-Parc y dylai "coleg arbenigol gael ei ddarparu a all sicrhau canlyniadau dysgu, canlyniadau iechyd a chanlyniadau cymdeithasol o safon i ... myfyrwyr ag anghenion eithriadol" yn ne Cymru. Gwnaethant nodi nad oes darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd yng Nghymru ac y bydd angen i lawer o fyfyrwyr ag anghenion eithriadol symud i Loegr i fanteisio ar y math hwn o ddarpariaeth.

5.8 Mewn egwyddor, rydym yn hoffi'r syniad o gael colegau preswyl arbenigol yng Nghymru. Rydym yn cydymdeimlo â'r rhai y mae'n rhaid iddynt deithio'n bell iawn o'u cartref i fanteisio ar y math hwn o ddarpariaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol nad yw hwn yn fater syml o gofio natur wasgaredig y niferoedd o bobl ifanc dan sylw, materion ariannu a'r angen i leoli unrhyw gyfleuster mewn dalgylch ymarferol. Wedi dweud hynny, nid yw hwn yn fater lle cawsom ddigon o dystiolaeth na thystiolaeth ddigon manwl i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ein hunain.

5.9 Fe'n hysbyswyd[26] y caiff lleoliadau preswyl arbenigol eu hystyried gan Is-bwyllgor Cabinet y Cynulliad ar Blant a Phobl Ifanc. Er bod yr Is-bwyllgor yn ystyried amrywiaeth o opsiynau i wella'r ddarpariaeth bresennol, nid yw'n glir pa un a yw'n ystyried pa un a oes angen darparu colegau arbenigol yng Nghymru, neu i ba raddau y mae'n ystyried hynny.

**[18] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i darpariaeth breswyl arbenigol ôl-16, archwilio'r angen i gael colegau preswyl arbenigol yng Nghymru.**

---

[24] Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - Adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig - Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) - Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006 - Argymhelliad 7

[25] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau – 9 Tachwedd 2006. Papur ELLS(2) 14-06(p5) (Saesneg yn unig) Hefyd Trawsgrif o'r Pwyllgor, paragraffau 299 i 329 (Saesneg yn unig)

[26] Gweler cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - 7 Rhagfyr 2006. Papur ELLS(2) 16-06(p3) paragraffau 26-29 (Saesneg yn unig)

**Addysg Uwch**

5.10 Mae nifer o faterion tebyg i'r rhai sy'n effeithio ar broses drosglwyddo ddidrafferth i addysg bellach hefyd yn codi mewn perthynas â throsglwyddo i Sefydliadau Addysg Uwch. Ymhlith y rhain mae problemau o ran rhannu gwybodaeth a diffyg gwybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael mewn addysg uwch i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Unwaith eto, credwn y bydd penodi gweithwyr allweddol a threfniadau eiriolaeth annibynnol yn helpu i wella'r sefyllfa.

Ymgysylltu ag Ysgolion

5.11 Yn fwy penodol, clywsom nad yw ysgolion a Chydlynwyr AAA o bosibl yn ymgysylltu â Sefydliadau Addysg Uwch cymaint ag y maent yn ymgysylltu â Cholegau Addysg Bellach. Mae'n bosibl bod hyn yn cyfrannu at ddiwylliant o ddisgwyliadau isel ar gyfer myfyrwyr anabl mewn perthynas ag addysg uwch. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth a glywsom pa mor gyffredin y mae'r broblem hon. Fodd bynnag, credwn fod gwerth ymchwilio ymhellach i hyn.

**[19] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ystyried sut y gellir gwella'r cyswllt rhwng ysgolion, Cydlynwyr AAA a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.**

Lwfans Myfyrwyr Anabl

5.12 Mae Lwfansau Myfyrwyr Anabl yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr ag anabledd neu anhawster dysgu penodol. Telir y lwfans yn ychwanegol at becyn cyllid safonol myfyrwyr ac nid oes yn rhaid ei ad-dalu. Mae'n cwmpasu cost offer arbenigol, cymorth anfeddygol, costau teithio ychwanegol a chostau perthnasol eraill megis tapiau neu bapur Braille.

5.13 Clywsom y gall y lwfans fod yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd mai'r myfyriwr, yn hytrach na'r sefydliad, sy'n gymwys i gael arian. Felly, nid oes angen sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion gwahanol myfyrwyr unigol neu flaenoriaethau gwariant eraill yn y sefydliad.

5.14 Serch hynny, mae terfyn cyffredinol ar y lwfans, sef tua £14,000 y myfyriwr ar gyfer pob blwyddyn academaidd a thua £5,000 am gwrs cyfan ar gyfer offer arbenigol. Gall y terfynau hyn beri problemau pan fydd angen addasiadau mwy costus. Credwn fod dadl dros archwilio pa un a ddylid dileu'r terfyn, yn enwedig ar gyfer offer arbenigol, ac, yn hytrach, y dylai fod yn seiliedig ar angen a aseswyd.

**[20] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa un a yw'r terfyn ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl yn parhau i fod yn briodol neu ba un a ddylid ei ddileu.**

Arian Arall

5.15 Clywsom rywfaint o feirniadaeth bod y lefel ariannu gyffredinol a roddir i Sefydliadau Addysg Uwch ac a ddarperir oddi mewn iddynt ar gyfer cymorth i bobl anabl yng Nghymru yn ddiffygiol o bosibl. Er enghraifft, dywedwyd wrthym mai'r cyfanswm a gaiff UWIC gan CCAUC at y diben hwn yw tua £80,000 y flwyddyn (mae gan UWIC y nifer fwyaf o fyfyrwyr anabl yng Nghymru). Yn anffodus, ni allem gael tystiolaeth gan CCAUC ar y rhan hon o'r adolygiad. Fodd bynnag, rydym yn bryderus na fydd arian canolog yn ddigonol i ymdrin ag anghenion ar lawr gwlad o bosibl.

**[21] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) adolygu'r arian y mae'n ei roi i fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol er mwyn cadarnhau pa un a yw'n ddigonol. Dylai CCAUC gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad o fewn chwe mis i ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad hwn.**

Adran 6

# Trosglwyddo i Gyflogaeth

## Adran 6 - Trosglwyddo i Gyflogaeth

### Cyflwyniad

6.1 Gall symud o addysg i gyflogaeth fod yn brofiad anodd i bobl ifanc beth bynnag fo'u galluoedd a'u hamgylchiadau. Gall hyn fod dwywaith mor anodd i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae angen i'r asiantaethau amrywiol sydd yno i'w cefnogi weithio gyda'i gilydd i gynnig cymorth a chyfarwyddyd ymarferol i gael swydd ac wedyn i lwyddo ynddi.

6.2 Yn ogystal, mae angen i gyflogwyr edrych y tu hwnt i anghenion ychwanegol pobl ifanc a gweld pwy ydynt go iawn; mae angen iddynt gydnabod y gwerth ychwanegol y mae'r bobl ifanc hyn yn ei gynnig. Er bod llawer o gyflogwyr sydd wedi cydnabod y ffaith hon, rydym yn pryderu nad yw cyflogwyr yn ymdrin â'r mater hwn gymaint ag y dylent fod yn ei wneud.

### Cyflogaeth dan Gymorth

6.3 Hoffem dalu teyrnged i'r gwaith da iawn a wneir ar raddfa fawr ledled Cymru gan yr asiantaethau cyflogaeth a'r sefydliadau gwirfoddol amrywiol sy'n gweithio ym maes cyflogaeth dan gymorth. Yn ddiau, heb ymdrechion yr unigolion ymroddedig niferus sy'n gweithio yn y maes hwn, byddai hyd yn oed llai o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn swyddi ystyrlon a boddhaol yn awr.

6.4 Fodd bynnag, rydym wedi nodi yr ymddengys bod llawer o gynlluniau cyflogaeth dan gymorth yn fach ac yn lleol iawn. Yn aml, maent yn gweithredu gydag ychydig iawn o arian o ffrydiau ariannu ansicr mewn ffordd ad hoc a thameidiog. Ymddengys nad oes fawr ddim gweledigaeth strategol gan y Llywodraeth o ran rôl cyflogaeth dan gymorth i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Ymddengys bod hyn yn arwain at ddarpariaeth amrywiol iawn ledled Cymru.

6.5 Er mwyn amlygu'r pwynt, roeddem yn pryderu o glywed y gall cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl ag anableddau dysgu fod mor isel â 5%. Clywsom hefyd fod y ffigur hwn wedi codi i dros 50% a llawer uwch na hyn mewn rhai achosion, mewn gwledydd megis Awstralia, UDA a Canada lle y gwnaed ymdrech i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae asiantaethau cyflogaeth dan gymorth yng Nghymru, er gwaethaf yr anfanteision o ran ariannu a maint y maent yn eu hwynebu, wedi llwyddo i sicrhau cyfraddau cyflogaeth tebyg ymhlith y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy.

<u>Rôl y Sector Gwirfoddol</u>

6.6 Ymddengys y caiff y rhan fwyaf o gynlluniau cyflogaeth â chymorth yng Nghymru eu gweithredu gan sefydliadau'r Sector Gwirfoddol. Maent yn

gwneud gwaith da, yn arbennig yn lleol i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Drwy eu harferion a'u polisïau cyflogaeth eu hunain, maent hefyd yn rhoi enghreifftiau o'r swyddi y gall pobl ifanc eu gwneud a'r hyn y gallant ei gyflawni gyda chymorth digonol.

6.7 Fodd bynnag, efallai nad yw cynlluniau a sefydliadau unigol yn ddigon mawr nac â digon o adnoddau i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr a gwneud cysylltiadau ledled Cymru. Yng ngoleuni hyn, credwn fod angen strategaeth Cymru gyfan gyda'r nod o gynyddu cyfran y bobl ifanc anabl sydd mewn gwaith. Dylai Gyrfa Cymru, gyda'i phedair cangen ranbarthol a ffocws cryf ar Gymru gyfan, ar y cyd â'r Sector Gwirfoddol, chwarae mwy o ran i helpu i sicrhau'r gwelliannau hyn.

**[22] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, gan weithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol, lunio Strategaeth Cyflogaeth dan Gymorth Cymru gyfan gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol eraill mewn cyflogaeth i lefelau arfer rhyngwladol gorau.**

**[23] Rydym yn argymell mai Gyrfa Cymru ar y cyd â'r Sector Gwirfoddol a chyrff eraill sy'n gweithio yn y maes hwn a ddylai fod â'r cyfrifoldeb canolog dros weithredu Strategaeth Cyflogaeth dan Gymorth Cymru gyfan.**

**Rôl Gyrfa Cymru**

6.8 Mae Gyrfa Cymru yn chwarae rhan ganolog i gefnogi trefniadau trosglwyddo pobl ifanc. Yn wir, maent wedi egluro[27] ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar drosglwyddo ac ar gam pob unigolyn i fywyd fel oedolyn. Rydym yn ymwybodol bod Gyrfa Cymru eisoes yn canolbwyntio'n gryf, yn statudol ac yn gytundebol, ar helpu proses drosglwyddo pobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol.

6.9 Rydym wedi argymell eisoes y dylai Gyrfa Cymru chwarae rhan ganolog i helpu i gynyddu nifer y bobl ifanc anabl, yn arbennig, sydd mewn gwaith. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod gan Gyrfa Cymru ddigon o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol i ateb y galw am gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd arbenigol i bobl ifanc ar draws yr ystod lawn o anghenion ychwanegol.

**[24] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried ar y cyd â Gyrfa Cymru sut y gellir atgyfnerthu'r cyngor a'r cyfarwyddyd arbenigol a ddarperir gan Gyrfa Cymru i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Dylai'r Llywodraeth gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor**

---

[27] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - 7 Mehefin 2006. Papur ELLS(2) 09-06(p4) (Saesneg yn unig)

**Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.**

6.10 Er nad yw'n thema gyson, un mater penodol a ddygwyd i'n sylw oedd yr angen i bobl ifanc ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn gyrfa. Credwn y gall hunangyflogaeth fod yn opsiwn i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn aml ac y gall, o dan eu hamgylchiadau penodol, gynnig mwy o hyblygrwydd a rheolaeth na gweithio gydag eraill. Credwn y dylai Gyrfa Cymru ystyried beth arall y gellir ei wneud i hyrwyddo hunangyflogaeth fel opsiwn i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol.

**[25] Rydym yn argymell y dylai Gyrfa Cymru ystyried y ffordd orau o hyrwyddo hunangyflogaeth fel opsiwn i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**Rôl Cyflogwyr**

6.11 Clywsom sawl gwaith am enghreifftiau o bobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gael swyddi boddhaus a gwerthfawr a'u cadw. Yn aml, mae'r bobl ifanc dan sylw wedi cael y swyddi hyn er gwaethaf amheuon cychwynnol cyflogwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd sail i'r ofnau hyn ac roedd y bobl ifanc dan sylw wedi cyfrannu'n helaeth i'r busnes.

6.12 Rydym eisoes wedi cyfeirio at y gwaith da a wneir gan asiantaethau cyflogaeth dan gymorth ac eraill i helpu pobl ifanc i gael gwaith. Byddem ar fai pe na fyddem hefyd yn cyfeirio at gyfraniad cadarnhaol llawer o gyflogwyr sydd wedi dechrau cydnabod y manteision a ddaw yn sgîl cyflogi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.

6.13 Fodd bynnag, rydym yn bryderus efallai nad yw llawer o gyflogwyr mor flaengar. Yn rhannol, efallai mai'r rheswm dros hyn yw am eu bod yn ystyried y maes hwn yn broblem yn hytrach nag yn gyfle. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth ymarferol ac ariannol sydd ar gael i'w helpu i wneud yr addasiadau angenrheidiol i hwyluso cyflogi mwy o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Yn anffodus, i fwy o raddau nag y byddem yn ei ddymuno, efallai mai rheswm arall yw agweddau hen ffasiwn a diffyg ymwybyddiaeth o'r manteision. Credwn fod angen menter proffil uchel i helpu i oresgyn yr agweddau hyn ac egluro'r manteision a'r cymorth sydd ar gael.

**[26] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad benodi unigolyn, y dangosir parch cyffredinol ato yn y gymuned fusnes, i hyrwyddo'r manteision i gyflogwyr a ddaw yn sgîl cyflogi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

6.14 Credwn hefyd y dylid cynnig mwy o gymhellion i gyflogwyr. Mae Estyn wedi awgrymu[28] y gallai Llywodraeth y Cynulliad, ochr yn ochr â'r gwaith ar weithredu'r Cynllun Gwella Dysgu Seiliedig ar Waith, ddatblygu cymhellion i annog cyflogwyr i gyflogi mwy o bobl ag anghenion addysgol ychwanegol. Cytunwn â'r ymagwedd hon. Clywsom hefyd yn ystod ein hymweliad ymchwiliol â Denmarc o drefniadau lle yr oedd yn ofynnol i gyflogwyr gyfrannu i gost hyfforddi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi cymhelliant i gyflogwyr "gael elw o'u buddsoddiad" ac felly dangos mwy o ddiddordeb mewn cyflogi pobl ifanc. Credwn ei bod yn werth ystyried yr ymagwedd hon ymhellach, er nad ydym yn diystyru'r anawsterau, gan gynnwys problemau diwylliannol a chyfreithiol, a allai godi.

**[27] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried ffyrdd o ddatblygu cymhellion i annog cyflogwyr i gyflogi mwy o bobl ag anghenion addysgol ychwanegol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i wneud hynny o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad.**

**[28] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad werthuso manteision ardoll hyfforddiant anghenion ychwanegol i gyflogwyr.**

Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach

6.15 Rydym yn arbennig o bryderus nad oedd naill ai Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) na'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) yng Nghymru yn teimlo y gallent gyfrannu i'r adolygiad hwn. Er ein bod yn cydnabod efallai nad yw'r mater hwn yn un o bryderon canolog eu haelodau, mae'n siomedig gweld nad ydynt yn dangos mwy o rôl arwain yn y maes hwn. Mae'r Cynulliad yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â Busnes ac, o leiaf, mae'n rhaid i hyn gynnwys parodrwydd i drafod materion pwysig megis y mater hwn.

**[29] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i'r CBI, yr FSB a chyrff cyflogwyr perthnasol eraill ystyried pa un a oes angen iddynt ymwneud yn fwy â'r mater hwn a materion tebyg er mwyn iddynt fanteisio i'r eithaf ar weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad.**

**[30] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cylch gwaith i Estyn i weithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector, y CBI, yr FSB a sefydliadau cyflogwyr eraill i geisio gwella agweddau a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

[28] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - 7 Mehefin 2006. Papur ELLS(2) 09-06(p3) (Saesneg yn unig)

## Cymwysterau Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol

6.16 Ar wahân i'r adolygiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried pryderon mewn arolygiadau Estyn ynghylch ansawdd llawer o'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith. Yn ei hadroddiad blynyddol diwethaf[29], mae'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn nodi sefyllfa well ond sefyllfa lle mae gan un o bron hanner y darparwyr a arolygwyd safonau anfoddhaol ar y cyfan o hyd. Er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc ag anghenion ychwanegol sydd mewn gwaith, bydd dysgu seiliedig ar waith yn allweddol i ddarparu cyfleoedd dysgu pellach a chyfleoedd dysgu gydol oes ar eu cyfer. Felly, mae gwendidau mewn darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ddwywaith mor bwysig i'r grŵp hwn. Cymeradwywn un o'r argymhellion strategol a gynigiwyd i ni gan Estyn y dylid rhoi canllawiau clir i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am ddisgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad ac y dylid rhoi cymorth iddynt feithrin eu gallu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol.

**[31] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi canllawiau clir i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am ddisgwyliadau a chymorth i feithrin eu gallu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion ychwanegol.**

6.17 Dylai Cymwysterau Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol fod yn arbennig o berthnasol fel ffordd o asesu ac achredu cynnydd y rhai ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth i ni wedi awgrymu efallai nad yw strwythur y cymwysterau mor hygyrch ac mor berthnasol i'r rhai ag anghenion ychwanegol ag y byddem yn ei ddymuno. Yn wir, cafwyd rhywfaint o dystiolaeth bod canfyddiad bod rhoi pwyslais ar sgiliau allweddol yn nodwedd negyddol. Mae hyn yn siomedig ac efallai mai'r rheswm rhannol amdani yw diffyg ymgysylltiad â chyflogwyr yn enwedig drwy'r Cynghorau Sgiliau Sector.

**[32] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Cynghorau Sgiliau Sector, werthuso sut y mae'r Fframwaith Cymwysterau Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol yn effeithio ar y rhai ag anghenion ychwanegol a pha un a oes angen unrhyw addasiadau ar gyfer y grŵp hwn.**

[29] Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2005-2006 – Estyn 2007

**Materion o ran Budd-daliadau a'r Ganolfan Byd Gwaith**

6.18 Nododd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i ni broblemau yn gysylltiedig â'r system fudd-daliadau, sef ei bod yn anghymhelliad i waith a hyfforddiant[30]. Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith ran bwysig iawn i helpu pobl ifanc i gael gwaith a dilyn hyfforddiant ond fe'i beirniadwyd weithiau am ei hymagwedd gyffredinol. Cafwyd canfyddiad bod angen iddi feithrin ei harbenigedd ac ymwneud yn fwy â materion mewn perthynas ag anghenion ychwanegol.

6.19 Nid yw budd-daliadau yn fater datganoledig ac mae'r ffordd o weithredu'r system fudd-daliadau yn gymhleth. Nid yw'n faes y mae'r Pwyllgor wedi'i ystyried yn fanwl yn ystod yr adolygiad hwn. Serch hynny, roedd y pryderon a fynegwyd yn ddigon eang i'n harwain i gredu bod angen rhoi sylw i'r maes er mwyn sicrhau ymagwedd "gydgysylltiedig" rhwng polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn y maes hwn a gwaith y Ganolfan Byd Gwaith.

6.20 Er na wnaethom ystyried y mater hwn yn fanwl, cwblhaodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad adolygiad manwl dwy flynedd yn ddiweddar o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc anabl[31]. Adlewyrchir llawer o'r themâu yn yr adolygiad hwnnw yn yr adroddiad hwn. Yn benodol, roeddent yn pryderu y gallai'r system fudd-daliadau fod yn rhwystr i weithio yn hytrach nag yn gymorth. Canmolwn eu hadroddiad a chymeradwywn eu hargymhellion penodol o ran budd-daliadau. Er cyflawnrwydd, rydym yn eu hailadrodd yma gan eu bod yn ymwneud â'n cylch gorchwyl.

**[33][32] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno sylwadau i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau am yr angen i oresgyn yr anghymhellion i weithio yn y system fudd-daliadau bresennol a wynebir gan bobl anabl.**

**[34][33] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gydweithio'n agos i ddatblygu ffyrdd o ddefnyddio cyllidebau a'r system fudd-daliadau yn greadigol er mwyn sicrhau yr ategir polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Adrannau Whitehall.**

**Cyfleoedd Profiad Gwaith**

---

[30] Gweler, fel enghraifft o'r problemau, yr atodiad i Bapur Gyrfa Cymru ELLs(2) 09-06(p4) (Saesneg yn unig) a ystyriwyd gennym ar 7 Mehefin 2006

[31] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal – Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl – Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007
[32] Argymhelliad 17 y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
[33] Argymhelliad 18 y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

6.21 Beirniadodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth y ffaith nad oedd digon o gyfleoedd yn yr ysgol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol gael lleoliadau gwaith, a arweiniodd at anawsterau i gael swydd yn ddiweddarach. Dyma faes lle y mae angen codi disgwyliadau mewn ysgolion ac ymhlith cyflogwyr. Dyma fater y gellid ei ychwanegu at gylch gwaith yr "Hyrwyddwr" a argymhellwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

**[35] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi'r cylch gwaith o ystyried sut y gellir gwella lleoliadau gwaith i ddisgyblion ysgol i'r hyrwyddwr cyflogaeth anghenion ychwanegol.**

# Adran 7

# Materion o ran Iaith

## Adran 7 - Materion o ran y Gymraeg ac Ieithoedd Eraill

7.1 Yn ein hadroddiadau ar gamau blaenorol yr adolygiad hwn, rydym wedi cynnig nifer o argymhellion o ran sut y gellir atgyfnerthu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae'r prif themâu sydd wedi codi'n rheolaidd wedi cynnwys diffyg deunyddiau, gweithwyr proffesiynol hyfforddedig, canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r rhai sydd am gael darpariaeth yn Gymraeg.

7.2 Er bod materion gwahanol yn gysylltiedig â hyn i ryw raddau, mae llawer o'r un themâu yn codi mewn perthynas ag ieithoedd eraill heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg ac yn yr un modd rydym wedi cynnig argymhellion o'r blaen mewn perthynas â'r meysydd hyn hefyd.

7.3 Rydym wedi clywed pryderon am ddarpariaeth Gymraeg yn y dystiolaeth ac mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod y problemau a amlinellwyd mewn adroddiadau blaenorol yr un mor berthnasol wrth ystyried materion o ran trosglwyddo. Yn benodol, rydym yn pryderu bod diffyg gallu i ateb y galw mewn perthynas â'r Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch a dysgu seiliedig ar waith. Yn sgîl hyn, cynigiwyd yr argymhellion canlynol.

**[36] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth i atgyfnerthu darpariaeth anghenion ychwanegol Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch, dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau cyflogaeth dan gymorth.**

**[37] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ailystyried yr argymhellion[34,35] yn ein hadroddiadau cynharach mewn perthynas â'r Gymraeg, a materion o ran ieithoedd eraill, ac ystyried pa un a ydynt yn berthnasol i faterion o ran trosglwyddo.**

---

[34] Rhan 1 : Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar - Argymhellion 3.69 a 3.72
[35] Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) - Argymhellion 19, 20, 21, 22, 23 a 27

# Adran 8

# Trafnidiaeth

## Adran 8 - Trafnidiaeth

8.1 Nodwyd anawsterau o ran trafnidiaeth yn gyson gan lawer o'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad ac fe'u crybwyllwyd hefyd gan nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth. Yn arbennig, dywedodd Estyn[36] wrthym y gall anawsterau o ran trafnidiaeth arwain at anghydraddoldebau o ran mynediad a gall fod yn ffactor pwysig sy'n cyfyngu ar ddilyniant i gyflogaeth neu hyfforddiant.

**[38] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gellir gwella mynediad at drafnidiaeth er mwyn dileu'r anghydraddoldebau o ran mynediad a gwella cynnydd ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

[36] Cyfarfod y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau - 7 Mehefin 2006. Papur ELLS(2) 09-06(p3) (Saesneg yn unig)

Adran 9

Adnoddau

## Adran 9 - Adnoddau

### Ariannu Cyffredinol

9.1 Fel y nodwyd yn adran 2, cyfanswm yr arian sydd wedi'i ddyrannu i anghenion addysgol ychwanegol yng Nghymru yn 2006-07 yw £288 miliwn, sef cynnydd o 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 42% yn yr arian a ddyrannwyd ers 2002-03. Dyma gryn adnodd. Yn ein hadroddiadau blaenorol, rydym wedi canfod, er y gellir gwneud defnydd da o fwy o arian bob amser, ac efallai fod mannau tynn penodol o ran sut y caiff adnoddau eu dyrannu, na chlywsom unrhyw dystiolaeth gymhellol bod diffyg sylweddol cyffredinol mewn adnoddau.

9.2 Nid ydym mor hyderus mewn perthynas ag arian ar gyfer trosglwyddo. Ein pryder cyntaf yw nad ydym wedi llwyddo i nodi unrhyw symiau arian penodol i gefnogi na gwella trefniadau trosglwyddo. Efallai fod gwariant sylweddol yn y maes hwn ond, ar hyn o bryd, nid ydym yn credu ei bod yn bosibl dweud pa un a yw hyn yn wir neu ba un a yw'r gwariant yn ddigonol.

**[39] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadarnhau ar frys faint a gaiff ei wario ledled Cymru i gefnogi'r broses o drosglwyddo i gyflogaeth a dysgu pellach ac y dylai ystyried, yng ngoleuni ei chanfyddiadau, pa un a yw gwariant yn y maes hwn yn ddigonol ac yn gost-effeithiol.**

### Addysg Bellach

9.3 O gyfanswm cyllideb o £261 miliwn yn 2005-06, dyrannwyd tua £11 miliwn yn benodol i Golegau Addysg Bellach i helpu dysgwyr ag anawsterau dysgu neu anableddau. Yn ogystal, dyrannwyd £11 miliwn arall drwy'r gyllideb Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 am amrywiaeth o faterion eraill gyda'r nod o helpu'r rhai ag anghenion ychwanegol. Dyma gryn swm. Er gwaethaf hyn, nid ydym yn argyhoeddedig bod yr arian cyffredinol yn ddigonol nac y caiff ei ddosbarthu i Golegau Addysg Bellach yn y ffordd fwyaf priodol.

**[40] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu pa un a yw cyfanswm yr arian sydd ar gael i Golegau Addysg Bellach o ran anghenion addysgol ychwanegol yn ddigonol a pha un a ellir gwella'r dull o ddosbarthu'r arian i golegau.**

### Taliadau Uniongyrchol

9.4 Mae'n amlwg bod angen ffrydiau ariannu sy'n helpu sefydliadau, systemau a gweithwyr proffesiynol i roi cymorth a chyfarwyddyd i bobl ifanc, eu teuluoedd neu eu gofalwyr. Fodd bynnag, yn enwedig wrth symud i addysg bellach neu gyflogaeth, bydd llawer o bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn ddigon aeddfed i ddymuno gwneud eu dewisiadau eu hunain am y cymorth sydd fwyaf addas iddynt. Mae'n debygol y caiff arian i'r rhai sy'n symud i addysg bellach ei ddarparu ar lefel sefydliadol yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r person ifanc ei hun. Yn ein barn ni,

efallai y bydd y Lwfans Myfyrwyr Anabl yr ydym yn cyfeirio ato yn adran 5 yn cynnig model ariannu gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n ymgymryd ag addysg bellach neu ddysgu seiliedig ar waith.

**[41] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa un a ddylai arian ar gyfer addysg bellach a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith gynnwys elfen "taliadau uniongyrchol" yn seiliedig ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl fel model.**

**Ariannu Cydweithredol**

9.5 Yn adran 4, rydym yn mynegi ein barn bod cynllunio ar gyfer trosglwyddo yn golygu cydweithio agos rhwng amrywiaeth o asiantaethau gwahanol. Ar wahân i wybodaeth, bydd angen rhannu arian ac adnoddau ar draws ffiniau sefydliadol yn aml hefyd. Nid ymddengys bod unrhyw rwystr cyfreithiol i hyn gan fod Deddf Plant 2004[37] yn darparu pwerau i gronni cyllidebau rhwng partneriaid penodol. Er gwaethaf hyn, canfuwyd bod y broses o rannu cyllidebau yn anghyson. Nodwn ddymuniad Llywodraeth y Cynulliad i weld gwelliannau ym maes comisiynu ar y cyd ond nid ydym yn argyhoeddedig y caiff yr arfer hwn ei arddel yn eang yn yr un ffordd.

**[42] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried camau gweithredu pellach i sicrhau bod adnoddau yn llifo'n hawdd ar draws ffiniau sefydliadol lle y mae hynny er budd o ran helpu pobl ifanc i drosglwyddo i ddysgu pellach ac i waith ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

**[43] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi neu greu dulliau ariannu sy'n meithrin cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a sefydliadau'r sector gwirfoddol sydd â sgiliau o ran hyfforddiant galwedigaethol neu gyflogaeth dan gymorth.**

**Cyflogaeth dan Gymorth**

9.6 Yn adran 6 amlinellwyd y gwaith ardderchog a wneir gan amrywiaeth o gyrff gwirfoddol i roi pobl ifanc mewn cyflogaeth dan gymorth. Nodwyd nad oedd gan lawer o'r sefydliadau hyn ddigon o adnoddau i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr y tu allan i'w hardal leol. Galwyd am i Strategaeth Cymru gyfan gael ei llunio ym maes cyflogaeth dan gymorth ac i Gyrfa Cymru, fel corff â ffocws rhanbarthol cryf a chyrhaeddiad Cymru gyfan, arwain y broses o lywio'r strategaeth hon.

9.7 Fodd bynnag, mae'n hanfodol na chaiff y gwaith ardderchog a wneir gan sefydliadau gwirfoddol ac eraill ei golli mewn ymgyrch i ganoli gwasanaethau. Mae angen diogelu cryfderau'r trefniadau presennol a'u datblygu'n gyntaf. Ymddengys bod llawer o'r asiantaethau cyflogaeth dan gymorth lleol yn cael anhawster i weithredu o fewn yr arian sydd ganddynt. Hyd yn oed lle yr oedd yr arian a oedd ganddynt yn ddigonol, ymddengys nad oedd hyn yn sicr. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall rhan o wrthwynebiad cyflogwyr ddeillio o'u canfyddiad o gostau ychwanegol.

---

[37] The Children Act 2004 (Pennod 31) (Saesneg yn unig)

**[44] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu ffrwd ariannu newydd i helpu i dalu rhai o gostau craidd sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio i gefnogi cyflogaeth pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[45] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu ffrwd ariannu newydd i helpu i dalu rhai o gostau cyflogwyr bach o ran addasiadau rhesymol i gefnogi cyflogaeth pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**Hyfforddiant**

9.8 Nid ydym yn argyhoeddedig, yn arbennig ym maes cyflogaeth dan gymorth, fod digon o adnoddau ac arbenigedd proffesiynol ar hyn o bryd i ddarparu'r cymorth a'r canllawiau arbenigol a all fod eu hangen.

**[46] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa hyfforddiant pellach sydd ei angen i gefnogi rhagoriaeth broffesiynol wrth ymdrin â materion o ran trosglwyddo ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

Adran 10

# Casgliad a Chrynodeb o Argymhellion

## Adran 10 - Casgliad a Chrynodeb o Argymhellion

## Casgliad

Cyffredinol

10.1 Dyma faes lle y ceir llawer o arferion da ond lle y gall y ddarpariaeth ar lawr gwlad fod yn anghyson gyda diffyg o ran cydweithio, rhannu gwybodaeth ac amcanion y cytunwyd arnynt a ddeëllir gan bawb.

10.2 Mae llawer o ganllawiau arferion da hefyd, sy'n seiliedig ar statud yn aml, o ran cydweithio a chynllunio a rhannu adnoddau. Ond, nid yw'n glir a gaiff y canllawiau hyn eu gweithredu fel y dylent. Efallai y bydd angen symleiddio'r trefniadau a nodir mewn canllawiau er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu'n gywir.

10.3 Mae angen neilltuo mwy o arian ar gyfer trosglwyddo ac mae angen nodi'r arian hwn yn glir er mwyn gallu monitro'n effeithiol sut y'i defnyddir. Mae angen ystyried digonolrwydd arian a'r ffordd y caiff ei ddosbarthu i golegau, prifysgolion a lleoliadau seiliedig ar waith hefyd yn ogystal â'r ddarpariaeth Gymraeg a'r ddarpariaeth mewn ieithoedd eraill.

10.4 Mae angen i gyflogwyr gymryd mwy o ran ac mae angen eu hannog i wneud hynny. Er gwaethaf gwaith da yn lleol a chan sefydliadau unigol, mae angen ymagwedd strategol lefel uchel fwy cyson er mwyn hybu gwelliannau.

10.5 Gall y System fudd-daliadau fod yn rhwystr yn hytrach nag yn ffactor galluogi. Efallai y bydd angen codi ymwybyddiaeth staff y Ganolfan Byd Gwaith o faterion o ran anghenion ychwanegol.

10.6 Mae angen pennu amcanion a thargedau clir ar gyfer nifer y bobl ifanc ag anghenion ychwanegol sydd mewn addysg a hyfforddiant sy'n symud ymlaen i gyflogaeth.

10.7 Y nod pennaf yw galluogi pob person ifanc i gyrraedd ei botensial llawn a byw bywyd boddhaus a chyflawn sy'n cyfrannu at ei les ei hun a lles cymdeithas.

Argymhellion Allweddol

10.8 Credwn y bydd ein hargymhellion, gyda'i gilydd, yn gwella'r broses drosglwyddo i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer o'r argymhellion yn ganolog i sicrhau'r gwelliant hwn. Yn gyntaf, yr argymhelliad i benodi gweithwyr allweddol[38] i helpu i atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr. I ategu hyn, mae angen sefydlu gwasanaethau eiriolaeth

[38] Argymhellion 8, 9 a 10

annibynnol[39] i helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn gwbl ymwybodol o'r dewisiadau y maent yn eu hwynebu ac yn eu deall yn llwyr.

10.9 Ym maes cyflogaeth, bydd ein hargymhellion[40] i lunio strategaeth i gynyddu nifer y bobl ifanc ag anghenion ychwanegol sy'n gallu cael swyddi ystyrlon a boddhaus a'u cadw, yn helpu i sicrhau y gall mwy ohonynt fyw bywydau annibynnol a boddhaus. Bydd penodi swyddog i hyrwyddo[41] manteision cyflogi'r bobl ifanc hyn ymhlith cyflogwyr yn rhoi ffocws, arweinyddiaeth a chymhelliant ychwanegol i'r strategaeth.

Monitro

10.10 Mae rhai o'n hargymhellion yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer gweithredu. Fel arall, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed i weithredu ein hargymhellion o fewn 12 mis i'w hymateb cychwynnol.

**[47] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi ymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn o fewn chwe wythnos i'w gyhoeddi ac y dylai gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad, gan gynnwys diweddariad pellach ar yr argymhellion yn rhan 1 a rhan 2 o'r adolygiad hwn, o fewn 12 mis i'w hymateb cychwynnol.**

[39] Argymhelliad 11
[40] Argymhellion 22 a 23
[41] Argymhellion 26 a 35

**Crynodeb o Argymhellion**

**[1] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu dulliau o ledaenu arfer da o ran trefniadau trosglwyddo i ddysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i ddatblygu'r dulliau hyn o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn**

**[2] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu, ar draws amrywiaeth ei chyfrifoldebau, y meysydd canllawiau a pholisi gwahanol o ran cynllunio trosglwyddo i weld a ellir eu cyfuno mewn ffordd symlach, cliriach a mwy hygyrch gan ystyried yr argymhellion yn adolygiad Beecham o'r gwasanaethau cyhoeddus lleol a ddarperir yng Nghymru.**

**[3] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau y cynhelir yr adolygiad trosglwyddo ar ddechrau blwyddyn 9 ac erbyn diwedd tymor yr hydref fan bellaf. Os oes rhesymau da dros wneud hynny, yna dylid cynnal adolygiadau mewn blynyddoedd cynharach.**

**[4] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau y caiff pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ymlaen llaw er mwyn iddynt allu manteisio i'r eithaf ar y broses adolygu trosglwyddo.**

**[5] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn ei gwneud yn glir y dylai pobl ifanc gymryd rhan bob amser yn y gwaith o lunio'r cynllun trosglwyddo, oni bai bod ffactorau clir a fyddai'n atal hyn.**

**[6] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys Gyrfa Cymru a gwasanaethau cymdeithasol, fod yn bresennol yn yr adolygiad trosglwyddo a chyfrannu ato.**

**[7] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad atgyfnerthu canllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol asesu anghenion posibl y person ifanc fel oedolyn yn ogystal ag asesu anghenion mwy uniongyrchol.**

**[8] Rydym yn argymell y dylid penodi gweithwyr allweddol i helpu pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion ychwanegol, eu rhieni a'u gofalwyr, drwy gydol eu haddysg.**

**[9] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad lunio fframwaith o ganllawiau, cyfrifoldeb proffesiynol a hyfforddiant proffesiynol priodol ar gyfer penodi gweithwyr allweddol ac y byddant yn gweithredu yn unol ag ef.**

**[10] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi blaenoriaeth i gam gweithredu allweddol 5.33 y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn ac y dylai ystyried gwneud yr un peth ar gyfer camau gweithredu allweddol eraill sy'n ymwneud â phenodi gweithwyr allweddol.**

**[11] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau i roi blaenoriaeth i gyflwyno gwasanaeth eiriolaeth annibynnol a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i wneud hynny o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.**

**[12] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu'r Cod Ymarfer AAA a chanllawiau perthnasol eraill, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tuag at ddarpariaeth anghenion addysgol ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer trosglwyddo i ddysgu pellach a bywyd fel oedolyn.**

**[13] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgynghori'n eang ar ganllawiau clir o ran arfer gorau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yng Nghymru a, lle y bo'n briodol, ag asiantaethau y tu allan i Gymru a'u gweithredu wedi hynny.**

**[14] Rydym yn argymell y dylid pennu nodau dilyniant clir a chyson fel rhan o'r cynllun trosglwyddo ym mlwyddyn 9 o addysg uwchradd ac y dylid cyfleu'r nodau yn glir i Golegau Addysg Bellach a'u hadolygu'n flynyddol.**

**[15] Rydym yn argymell, fel yr awgrymwyd gan Estyn, y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu dull safonol o olrhain anghenion a sgiliau dysgwyr i'w ddefnyddio gan Golegau Addysg Bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn sicrhau bod sgiliau dysgwyr ac anghenion cyflogwyr yn cyfateb i'w gilydd yn dda.**

**[16] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad archwilio'r rhesymau pam y gallai fod diffyg gwasanaethau iechyd a therapiwtig mewn Colegau Addysg Bellach a chymryd camau i wella'r ddarpariaeth.**

**[17] Rydym yn argymell y dylai'r broses o ddatblygu asesiadau statudol yn seiliedig ar gofnod o angen a gaiff ei asesu'n barhaus barhau ar ôl 16 ac y dylid eu defnyddio fel y brif ffordd o asesu anghenion mewn addysg bellach ac uwch a dysgu seiliedig ar waith.**

**[18] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i darpariaeth breswyl arbenigol ôl-16, archwilio'r angen i gael colegau preswyl arbenigol yng Nghymru.**

**[19] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ystyried sut y gellir gwella'r**

**cyswllt rhwng ysgolion, Cydlynwyr AAA a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru.**

**[20] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa un a yw'r terfyn ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl yn parhau i fod yn briodol neu ba un a ddylid ei ddileu.**

**[21] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) adolygu'r arian y mae'n ei roi i fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol er mwyn cadarnhau pa un a yw'n ddigonol. Dylai CCAUC gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad o fewn chwe mis i ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad hwn.**

**[22] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, gan weithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol, lunio Strategaeth Cyflogaeth dan Gymorth Cymru gyfan gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol eraill mewn cyflogaeth i lefelau arfer rhyngwladol gorau.**

**[23] Rydym yn argymell mai Gyrfa Cymru ar y cyd â'r Sector Gwirfoddol a chyrff eraill sy'n gweithio yn y maes hwn a ddylai fod â'r cyfrifoldeb canolog dros weithredu Strategaeth Cyflogaeth dan Gymorth Cymru gyfan.**

**[24] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried ar y cyd â Gyrfa Cymru sut y gellir atgyfnerthu'r cyngor a'r cyfarwyddyd arbenigol a ddarperir gan Gyrfa Cymru i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Dylai'r Llywodraeth gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.**

**[25] Rydym yn argymell y dylai Gyrfa Cymru ystyried y ffordd orau o hyrwyddo hunangyflogaeth fel opsiwn i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[26] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad benodi unigolyn, y dangosir parch cyffredinol ato yn y gymuned fusnes, i hyrwyddo'r manteision i gyflogwyr a ddaw yn sgîl cyflogi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[27] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried ffyrdd o ddatblygu cymhellion i annog cyflogwyr i gyflogi mwy o bobl ag anghenion addysgol ychwanegol a'i bod yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad ar y cynnydd a wnaed i wneud hynny o fewn chwe mis i'w hymateb cychwynnol i'r adroddiad.**

**[28] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad werthuso manteision ardoll hyfforddiant anghenion ychwanegol i gyflogwyr.**

**[29] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i'r CBI, yr FSB a chyrff cyflogwyr perthnasol eraill ystyried pa un a oes angen**

**iddynt ymwneud yn fwy â'r mater hwn a materion tebyg er mwyn iddynt fanteisio i'r eithaf ar weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad.**

**[30] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cylch gwaith i Estyn i weithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector, y CBI, yr FSB a sefydliadau cyflogwyr eraill i geisio gwella agweddau a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[31] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi canllawiau clir i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith am ddisgwyliadau a chymorth i feithrin eu gallu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion ychwanegol.**

**[32] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Cynghorau Sgiliau Sector, werthuso sut y mae'r Fframwaith Cymwysterau Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol yn effeithio ar y rhai ag anghenion ychwanegol a pha un a oes angen unrhyw addasiadau ar gyfer y grŵp hwn.**

**[33][42] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno sylwadau i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau am yr angen i oresgyn yr anghymhellion i weithio yn y system fudd-daliadau bresennol a wynebir gan bobl anabl.**

**[34][43] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau gydweithio'n agos i ddatblygu ffyrdd o ddefnyddio cyllidebau a'r system fudd-daliadau yn greadigol er mwyn sicrhau yr ategir polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Adrannau Whitehall.**

**[35] Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi'r cylch gwaith o ystyried sut y gellir gwella lleoliadau gwaith i ddisgyblion ysgol i'r hyrwyddwr cyflogaeth anghenion ychwanegol.**

**[36] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu strategaeth i atgyfnerthu darpariaeth anghenion ychwanegol Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch, dysgu seiliedig ar waith a lleoliadau cyflogaeth dan gymorth.**

**[37] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ailystyried yr argymhellion[44,45] yn ein hadroddiadau cynharach mewn perthynas â'r Gymraeg, a materion o ran ieithoedd eraill, ac ystyried pa un a ydynt yn berthnasol i faterion o ran trosglwyddo.**

**[38] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gellir gwella mynediad at drafnidiaeth er mwyn dileu'r anghydraddoldebau o ran mynediad a gwella cynnydd ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

---

[42] Argymhelliad 17 y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
[43] Argymhelliad 18 y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
[44] Rhan 1 : Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar - Argymhellion 3.69 a 3.72
[45] Rhan 2: Fframwaith Asesu Statudol (Datganiadau) - Argymhellion 19, 20, 21, 22, 23 a 27

**[39] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gadarnhau ar frys faint a gaiff ei wario ledled Cymru i gefnogi'r broses o drosglwyddo i gyflogaeth a dysgu pellach ac y dylai ystyried, yng ngoleuni ei chanfyddiadau, pa un a yw gwariant yn y maes hwn yn ddigonol.**

**[40] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad adolygu pa un a yw cyfanswm yr arian sydd ar gael i Golegau Addysg Bellach o ran anghenion addysgol ychwanegol yn ddigonol a pha un a ellir gwella'r dull o ddosbarthu'r arian i golegau.**

**[41] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa un a ddylai arian ar gyfer addysg bellach a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith gynnwys elfen "taliadau uniongyrchol" yn seiliedig ar y Lwfans Myfyrwyr Anabl fel model.**

**[42] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried camau gweithredu pellach i sicrhau bod adnoddau yn llifo'n hawdd ar draws ffiniau sefydliadol lle y mae hynny er budd o ran helpu pobl ifanc i drosglwyddo i ddysgu pellach ac i waith ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

**[43] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad nodi neu greu dulliau ariannu sy'n meithrin cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a sefydliadau'r sector gwirfoddol sydd â sgiliau o ran hyfforddiant galwedigaethol neu gyflogaeth dan gymorth.**

**[44] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu ffrwd ariannu newydd i helpu i dalu rhai o gostau craidd sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio i gefnogi cyflogaeth pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[45] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu ffrwd ariannu newydd i helpu i dalu rhai o gostau cyflogwyr bach o ran addasiadau rhesymol i gefnogi cyflogaeth pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.**

**[46] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried pa hyfforddiant pellach sydd ei angen i gefnogi rhagoriaeth broffesiynol wrth ymdrin â materion o ran trosglwyddo ac y dylai gyflwyno adroddiad ar hynny.**

**[47] Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi ymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn o fewn chwe wythnos i'w gyhoeddi ac y dylai gyflwyno adroddiad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu i'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn y Cynulliad, gan gynnwys diweddariad pellach ar yr argymhellion yn rhan 1 a rhan 2 o'r adolygiad hwn, o fewn 12 mis i'w hymateb cychwynnol.**

# Atodiadau

**Atodiad A**

**Cyrff ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor**

| Y rheini a roddodd dystiolaeth | Yn cynrychioli |
|---|---|

**7 Mehefin 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg yng Nghymru<br>▪ Elaine Allinson, Addysg a Hyfforddiant Ôl16<br>▪ Silvia Lindoe, Pennaeth yr Is-adran Rheoli Ysgolion | Estyn |
| ▪ John Llywelyn, Prif Weithredwr Gogledd-orllewin Cymru<br>▪ Steve Hole, Rheolwr Cymorth Busnes<br>▪ Jayne Tilley, Rheolwr Gweithredol Anghenion Addysgol Arbennig, Morgannwg Ganol a Phowys. | Gyrfa Cymru |
| ▪ Alun Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol<br>▪ Anne Greagsby | Y Comisiwn Hawliau Anabledd |

**5 Gorffennaf 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Gareth Parry, Rheolwr Cyffredinol<br>▪ Phil Clarke, Rheolwr Datblygu Strategol | Remploy |
| ▪ Professor Julie Allan, Cyfarwyddwr Cynllun Ymchwil Cyfranogiad, Cynhwysiant a Thegwch, Prifysgol Stirling. | |

**20 Medi 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Jane Coia. | Asiantaeth Datblygu Sgiliau Cwmbran - SCOPE |
| ▪ Andrea Wayman | Elite Supported Employment |

**18 Hydref 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Kaynie McLellan, Cyfarwyddwr<br>▪ Mike Barker, Ymgynghorydd Cyflogaeth<br>▪ Christine Evans, Cydgysylltydd Prosiect Gwaith Ysgolion | WISE-Sefydliad Cymreig dros Amgylchedd au Cynaliadwy |

| **Y rheini a roddodd dystiolaeth** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

**9 Tachwedd 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Jim Crowe, Cyfarwyddwr. | Anabledd Dysgu yng Nghymru |
| ▪ Stephen Beyer, Dirprwy Gyfarwyddwr | Canolfan Cymru ar gyfer Anableddau Dysgu |
| ▪ Catherine Lewis, Swyddog Datblygu<br>▪ Kate Wood, Rheolwr Prosiect<br>▪ Barry Shiers, Cyfarwyddwr | Plant yng Nghymru |
| ▪ Laura Morgan | Awtistiaeth Cymru |
| ▪ Bob Benson, Cyfarwyddwr Gweithredol - Datblygu Cymunedol<br>▪ Andy Lusk, Cyfarwyddwr Addysg a Blynyddoedd Cynnar | SCOPE |
| ▪ Neil Harvey, Pennaeth<br>▪ Kay Poretta-White, Cadeirydd Llywodraethwyr. | Ysgol Craig-y-Parc |

**22 Tachwedd 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Rachel Pass | Sgil Cymru |
| ▪ Cliff Warwick, Pennaeth<br>▪ Alison Shephard | Ysgol Arbennig Trinity Fields |
| ▪ John Graystone, Prif Weithredwr<br>▪ Sally Elliot, Cadeirydd Rhwydwaith Fforwm. | Fforwm |
| ▪ Brian Robinson, Pennaeth<br>▪ Steve Kelshaw<br>▪ Gaynor Morgan | Coleg Sir Gar |
| ▪ Karen Robson, Pennaeth Gwasanaethau i Bobl Anabl yn Athrofa Prif Ysgol Cymru, Caerdydd | |

**7 Rhagfyr 2006**

| | |
|---|---|
| ▪ Denise Inger, Cyfarwyddwr | SNAP Cymru |
| ▪ Liz Withers, Swyddog Polisi Cymru<br>▪ Katie Moore, Gweithiwr Gwasanaethau Teuluoedd | Cymdeithas Awtistiaeth Cymru |
| ▪ Barbara Teague, Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth | Mencap Cymru |

| | |
|---|---|
| ▪ Alan Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth | |
| ▪ Mike Barry, Pennaeth Cangen Polisi Gyrfaoedd<br>▪ Keith Ingham, Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant<br>▪ Alan Lansdown, Pennaeth Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant<br>▪ Bob Waller, Pennaeth Dros Dro'r Is-adran Polisi Sgiliau<br>▪ Mair Watkins, Pennaeth AAA a Chynhwysiant. | Llywodraeth y Cynulliad |

**Atodiad B**

**Rhestr o Bapurau Pwyllgor sydd wedi'u Cyhoeddi**

| Dyddiad | Enw'r Corff | Cyfeirnod y Papur |
|---|---|---|
| 3 Mai 2006 | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | ELLS(2) 07-06(p4) |
| 18 Mai 2006 | Cylch Gorchwyl | ELLS(2) 08-06(p2) |
| 7 Mehefin 2006 | Estyn | ELLS(2) 09-06(p3) |
| 7 Mehefin 2006 | Gyrfa Cymru | ELLS(2) 09-06(p4) |
| 7Mehefin 2006 | Comisiwn Hawliau Anabledd | ELLS(2) 09-06(p5) |
| 5 Gorffennaf 2006 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 11-06(07) |
| 20 Medi 2006 | Asiantaeth Datblygu Sgiliau Cwmbran Scope | ELLS(2) 12-06(p4) |
| 20 Medi 2006 | ELITE Supported Employment Agency | ELLS(2) 12-06(p5) |
| 20 Medi 2006 | Remploy | ELLS(2) 12-06(p6) |
| 20 Medi 2006 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 12-06(p6) |
| 20 Medi 2006 | Prifysgol Birmingham a'r Comisiwn Hawliau Anabledd | ELLS(2) 12-06(p6) |
| 18 Hydref 2006 | Menter Cyflogaeth dan Gymorth Cymru | ELLS(2) 13-06(p5) |
| 9 Tachwedd 2006 | Anabledd Dysgu yng Nghymru | ELLS(2) 14-06(p3) |
| 9 Tachwedd 2006 | Awtistiaeth Cymru | ELLS(2) 14-06(p4) |
| 9 Tachwedd 2006 | SCOPE | ELLS(2) 14-06(p5) |
| 22 Tachwedd 2006 | Sgil Cymru | ELLS(2) 15-06(p3) |
| 22 Tachwedd 2006 | Ysgol Arbennig Trinity Fields | ELLS(2) 15-06(p4) |
| 22 Tachwedd 2006 | Fforwm | ELLS(2) 15-06(p5) |
| 22 Tachwedd 2006 | Coleg Sir Gar | ELLS(2) 15-06(p6) |
| 7 Rhagfyr 2006 | Llywodraeth Cynulliad Cymru | ELLS(2) 16-06(p3) |
| 7 Rhagfyr 2006 | SNAP Cymru | ELLS(2) 16-06(p4) |
| 7 Rhagfyr 2006 | Cymdeithas Awtistiaeth Cymru | ELLS(2) 16-06(p5) |
| 7 Rhagfyr 2006 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 16-06(p10) |
| 7 Rhagfyr 2006 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 16-06(p11) |
| 7 Rhagfyr 2006 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 16-06(p12) |
| 17 Ionawr 2007 | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau | ELLS(2) 01-07(p7) |

Mae trawsgrifiad o'r holl gyfarfodydd ar gael yma:

http://www.cymru.gov.uk/cms/2/CommitteeMeeting/N00000000000000000000000000000078

**Atodiad C**

**Rhestr o Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad**

Ymatebodd y Cyrff a ganlyn i'r Holiadur ysgrifenedig

| |
|---|
| ABCD Cymru |
| Awdurdod Addysg Lleol Conwy |
| Awdurdod Addysg Lleol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Awdurdod Addysg Lleol Rhondda Cynon Taf |
| Awtistiaeth Cymru |
| Barnado's Cymru |
| Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro |
| Cartrefi Plant Cenedlaethol |
| Coleg Abertawe |
| Coleg Glannau Dyfrdwy |
| Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Sir Gwynedd |
| Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru |
| Dirprwy Bennaeth/Cydgysylltydd AAA Ysgol Penglais |
| Dynamic |
| Estyn |
| Mencap |
| Mencap Cymru |
| Mudiad Ysgolion Meithrin |
| NACRO |
| Plant yng Nghymru |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Prosiect Viva |
| Rathbone Training |
| RNIB Cymru |
| RNID Cymru |
| Social Interface Ltd. |
| Vale Plus |
| WISE |
| Ysgol Arbennig Trinity Fields |

**Ymateb gan unigolion o'r cyrff a ganlyn.**

| |
|---|
| Awdurdod Addysg Lleol Casnewydd |
| Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro |
| Coleg Abertawe |
| Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru |
| Coleg Glannau Dyfrdwy |

| |
|---|
| Coleg y Drindod, Caerfyrddin |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Cyngor Sir Gwynedd |
| Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru |
| Cymdeithas Spina Bifida a Hydroceffalws (ASBAH) |
| Grwp SENAD |
| Prifysgol Cymru, Casnewydd |
| Working Links |
| Y Ganolfan Awtistiaeth, Porth Tywyn |
| Ysgol Arbennig Briton Ferry |
| Ysgol Bechgyn Aberdâr |
| Ysgol Belmont |
| Ysgol Bryn Elian |
| Ysgol Delyn |
| Ysgol Gyfun Dyffryn, Port Talbot |
| Ysgol Gyfun Pontllanfraith |
| Ysgol Gyfun Rhymni |
| Ysgol Gyfun Sandfields, Port Talbot |
| Ysgol Hafod Lon |
| Ysgol Heol Goffa |
| Ysgol Heronsbridge |
| Ysgol Maes Dyfan |
| Ysgol Penglais l |
| Ysgol Penfro |
| Ysgol Uwchradd y Trallwng |
| Ysgol y Bryn |
| Ysgol y Gader |

Cafwyd 18 ymateb gan rieni pobl ifanc ag Anghneion Adysgol Arbennig.

Cafwyd 15 ymateb dienw.

Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn cynnwys unrhyw gyrff neu unigolion a nododd nad oeddynt am i'w manylion gael eu cyhoeddi. Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno aros yn ddienw.

## Atodiad Ch

**Crynodeb o Adolygiad Polisi AAA Rhan 3 – Trosglwyddo**

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn pedwar cwestiwn mewn perthynas â throsglwyddo pobl ifanc ag AAA. Ceir crynodeb o'r ymatebion, yn ôl cwestiwn, isod.

**Cafwyd cyfanswm o 113 o ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi'u rhannu fel a ganlyn:**

30 o sefydliadau, naill ai yn y sector statudol neu'r sector gwirfoddol;
21 o deuluoedd pobl ifanc ag AAA, yn cynnwys un myfyriwr;
20 o ysgolion;
16 o awdurdodau lleol (yn cynnwys 1 adran gwasanaethau cymdeithasol);
14 dienw;
3 choleg addysg bellach;
3 phrifysgol;
2 cydgysylltydd AAA:
2 fwrdd iechyd lleol;
1 darparwr hyfforddiant;
1 gwirfoddolwr.

***Beth yw'r prif bryderon o ran trosglwyddo yn eich barn chi?***

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Ariannu**
- Diffyg arian ar gyfer cyrsiau, lleoliadau gwaith ac ymweliadau ar gyfer sesiynau blasu i golegau a lleoliadau oedd y pryder mwyaf cyffredin;
- Diffyg eglurder o ran arian a phroblemau gydag ariannu hwyr.

**Cyfleoedd**
- Diffyg cyfleoedd a dewisiadau sy'n briodol, ystyrlon ac yn agos i'r cartref o ran hyfforddiant, addysg bellach ac addysg uwch a chyflogaeth;
- Mae angen bod gan bobl ifanc a rhieni ddisgwyliadau uwch ac mae angen i bobl ifanc rannu eu disgwyliadau.

**Cymorth**
- Diffyg rhwydwaith cymorth sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ysgol wrth symud i addysg bellach, gwaith neu hyfforddiant;
- Mae angen cymorth bugeiliol, eiriolaeth, cyngor a gweithwyr ymroddedig ym maes trosglwyddo. Mae angen cymorth i helpu myfyriwr i astudio a dealltwriaeth o anghenion myfyrwyr unigol. Nid yw pobl bob tro'n deall anableddau ac mae angen sicrhau bod pobl eraill yn amyneddgar;
- Cymorth i rieni.

**Amseru a chynllunio**
- Nid oedd digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer cyfarfodydd adolygu ac nid oedd y bobl iawn bob tro'n bresennol;
- Mae angen ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn o ran trosglwyddo a dylid sicrhau cymorth i fyfyrwyr er mwyn eu helpu i gyfrannu'n llawn i'r broses;
- Diffyg dealltwriaeth o ran dyheadau myfyrwyr a diffyg ymgynghoriad;
- Diffyg cydgysylltiad rhwng gwasanaethau i oedolion a phlant;

- Dylid dechrau cynllunio ar gyfer trosglwyddo pan fo myfyrwyr yn 14 oed, ond gellir gwneud penderfyniadau yn rhy hwyr a gall hyn arwain at oedi;
- Mae yna ddiffyg staff i hwyluso'r broses drosglwyddo'n ddidrafferth;
- Oedi wrth drefnu lleoliadau a myfyrwyr;
- Nid yw disgyblion yn barod ar gyfer y newidiadau sydd o'u blaenau.

**Gwybodaeth**
- Diffyg gwybodaeth addas a phriodol ar gyfer pobl ifanc, a diffyg ymwybyddiaeth o wybodaeth o'r fath ar gyfer disgyblion a rhieni;
- Ni chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo o un sector i'r llall neu ceir oedi wrth wneud hynny;
- Diffyg rhannu gwybodaeth am bobl ifanc ac mae rhai'n pryderu y gall rhannu gwybodaeth arwain at dorri gofynion Deddf Diogelu Data;
- Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth anabledd yn gyffredinol a diffyg ymwybyddiaeth o anghenion penodol (ee, anghenion pobl fyddar neu anghenion pobl ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig);
- Diffyg cyfathrebu.

**Pryderon eraill**
- Y prif bryder arall a gafodd ei ailadrodd oedd trafnidiaeth - diffyg trafnidiaeth briodol a fforddiadwy.

Prif bryderon **sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill** oedd:
- Diffyg cyfleoedd;
- Mae angen cynllunio cynnar a digonol a chymorth digonol i unigolion;
- Materion ariannu.

**O safbwynt awdurdodau addysg lleol:**
- Y lefelau gwahanol o gymorth a roddir i bobl ifanc mewn addysg orfodol ac addysg bellach/hyfforddiant/gwaith;
- Diffyg cyfleoedd;
- Diffyg arian a chymhlethdod y broses ariannu.

**O safbwynt rhieni, disgyblion a'u teuluoedd:**
- Diffyg cyfleoedd;
- Diffyg gwybodaeth;
- Arian;
- Y lefelau gwahanol o gymorth a gynigir mewn ysgolion o gymharu â chyflogaeth/hyfforddiant/addysg barhaus;
- Trafnidiaeth.

**O safbwynt darparwyr addysg bellach, addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth:**
- Trosglwyddo'r holl wybodaeth, a'i throsglwyddo'n gynnar er mwyn hwyluso'r broses o gynllunio ar gyfer pobl ifanc;
- Y lefelau gwahanol o gymorth a gynigir mewn ysgolion o gymharu â chyflogaeth/hyfforddiant/addysg barhaus;

**O safbwynt ysgolion:**
- Diffyg opsiynau;
- Trosglwyddo gwybodaeth o un sector i'r llall;
- Bod rhieni a disgyblion yn deall yn llwyr y newidiadau sydd o'u blaenau;
- Diffyg rhwydweithiau cymorth y tu allan i'r ysgol.

***Beth yw'r prif rwystrau neu'r prif broblemau o ran cyfleoedd cyflogaeth yn eich barn chi? Nodwch hyd at dri phwynt ym mhob achos:***
***a.) O safbwynt cyflogeion/myfyrwyr***

Y prif bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr oedd:

- Diffyg cyfleoedd a dewisiadau mewn amrywiaeth o leoliadau priodol, ystyrlon a lleol;
- Diffyg trafnidiaeth fforddiadwy a phriodol ar gyfer pobl ifanc;
- Diffyg ymwybyddiaeth anabledd ac agwedd cyflogwyr a chydweithwyr tuag at bobl ag AAA;
- Y cyfyngiadau ar bobl ifanc ag AAA, sydd o bosibl â sgiliau llythrennedd gwan, cymwysterau isel ac anawsterau cyfathrebu a'r angen am gyflogwyr sensitif a chydymdeimladol;
- Diffyg cymorth yn y gweithle ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr;
- Nid yw cymhlethdod y system fudd-daliadau a'r system fudd-daliadau ei hun yn cymell pobl i weithio;
- Diffyg gwybodaeth am gyfleoedd a dewisiadau a diffyg ymwybyddiaeth o wybodaeth;
- Disgwyliadau isel myfyrwyr, rhieni a chyflogwyr;
- Diffyg hyder pobl ifanc;
- Mae angen paratoi a chynllunio ar gyfer newid yn y byd gwaith.

Prif bryderon **sefydliadau** oedd:

- Diffyg opsiynau a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc;
- Agweddau pobl eraill a diffyg ymwybyddiaeth anabledd;
- Mae angen cymorth yn y gweithle;
- Trafnidiaeth a mynediad at gyfleoedd;
- Cydbwysedd rhwng gwaith â thâl a budd-daliadau.

O safbwynt **awdurdodau lleol**:

- Diffyg opsiynau a chyfleoedd;
- Trafnidiaeth.

O safbwynt **rhieni a theuluoedd**:

- Mae angen sicrhau bod cyflogwyr yn deall anghenion unigol pobl ifanc;
- Agweddau pobl eraill yn y gweithle;
- Mae angen cymorth yn y gweithle;
- Diffyg cyfleoedd ac opsiynau.

O safbwynt **darparwyr**:

- Agweddau pobl eraill a diffyg ymwybyddiaeth anabledd;
- Cyfleoedd cyfyngedig;
- Deall anghenion pobl ifanc;
- Cydbwysedd rhwng budd-daliadau a chyflogau.

O safbwynt **ysgolion**:

- Lefel y cymorth sydd ei hangen ar bobl ifanc;
- Diffyg opsiynau a chyfleoedd;
- Diffyg hyder a dyheadau pobl ifanc.

***Beth yw'r prif rwystrau neu'r prif broblemau o ran cyfleoedd cyflogaeth yn eich barn chi? Nodwch hyd at dri phwynt ym mhob achos:***
***b.) O safbwynt cyflogwyr***

Y prif bryder a nodwyd oedd canfyddiadau cyflogwyr o gyflogi pobl ifanc ag AAA, yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth anabledd, diffyg dealltwriaeth o anghenion unigolion a diffyg dealltwriaeth o allu pobl ifanc i gyfrannu.

Y prif broblemau eraill a nodwyd oedd:

- Materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch ac yswiriant;
- Lefel y cymorth a'r oruchwyliaeth a allai fod yn ofynnol o ran cyflogi person ifanc ag AAA;
- Pryderon y gallai fod angen rhagor o adnoddau ar gyfer cyflogi person ifanc ag AAA ac efallai na fydd yn perfformio mor dda ag eraill;
- Diffyg cymorth i gyflogwyr, yn cynnwys diffyg gweithwyr cymorth yn y gweithle a diffyg cymhellion i gyflogi pobl ag AAA;
- Anawsterau cyfathrebu a diffyg hyder o ran cyfathrebu;
- Paratoi'n gywir – gwybod beth yw anghenion unigolyn cyn iddynt ddechrau yn y gwaith;
- Pryderon ynghylch addasiadau yn y gweithle.

Prif bryderon **sefydliadau** oedd:

- Agweddau tuag at anableddau a diffyg ymwybyddiaeth anabledd;
- Diffyg arian i roi cymorth i gyflogwyr er mwyn iddynt gyflogi pobl ifanc;
- Efallai nad yw cyflogwyr yn ymwybodol o fanteision cyflogi pobl ifanc ag AAA;
- Materion yn ymwneud ag yswiriant, iechyd a diogelwch a chost addasiadau.

O safbwynt **awdurdodau lleol**:

- Efallai bod gan gyflogwyr bryderon ynghylch y cymorth a allai fod ei angen ar bobl ifanc ag AAA;
- Diffyg ymwybyddiaeth anabledd.

O safbwynt **teuluoedd**:

- Nid yw cyflogwyr yn deall anghenion unigol pobl ifanc.

O safbwynt **darparwyr**:

- Efallai nad yw cyflogwyr yn ymwybodol o botensial pobl ifanc;
- Pryderon ynghylch y cymorth a allai fod ei angen ar bobl ifanc.

O safbwynt **ysgolion**:

- Diffyg ymwybyddiaeth anabledd;
- Deall beth yw galluoedd pobl ifanc;
- Materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

***Beth yw'r prif faterion o ran y gwasanaethau a ddarperir mewn ieithoedd ac eithrio Saesneg, ynghylch trosglwyddo o addysg uwchradd, yn eich barn chi?***

Y prif broblemau a nodwyd oedd:

- Diffyg cyfleoedd a diffyg amrywiaeth o ddewisiadau ym maes cyflogaeth, hyfforddiant, addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer y rhai nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt;
- Diffyg gweithwyr proffesiynol a staff sy'n siarad Cymraeg (ac ieithoedd eraill, yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain) i gynorthwyo myfyrwyr a rhieni;
- Dylai gwybodaeth, cymorth a chyfleoedd fod ar gael i fyfyrwyr ym mha bynnag iaith yw eu dewis iaith neu eu dewis dull cyfathrebu a dylid sicrhau bod pobl ifanc yn gallu deall y wybodaeth y maent yn ei derbyn;
- Arian – y costau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu deunydd amlieithog a chyflogi cyfieithwyr/dehonglwyr;
- Diffyg cyfieithwyr sydd wedi'u hyfforddi;

- Diffyg ymwybyddiaeth o bob dull cyfathrebu, llafar ac arall;
- Gall diffyg cyfleoedd ar gyfer parhau â hyfforddiant, gwaith neu addysg barhaus yn ei iaith gyntaf beri dryswch i fyfyriwr;
- Diffyg eiriolaeth yn newis iaith y myfyriwr;
- Diffyg offer asesu mewn ieithoedd eraill.

Y brif neges gan bob grwp o ymatebwyr oedd y dylai fod darpariaeth ar gael ym mhob maes (addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth) yn newis dull cyfathrebu'r person ifanc.

***Beth yw'r tri phrif fater neu bryder o ran cynlluniau trosglwyddo yn eich barn chi?***

Y prif feysydd a oedd yn peri pryder oedd:
- Diffyg cydgysylltiad rhwng asiantaethau a'r angen am broses aml-ddisgyblaethol;
- Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun trosglwyddo fynd i gyfarfodydd cynllunio. Nododd yr ymatebwyr nad yw'r rhai sy'n cael gwahoddiad bob amser yn bresennol;
- Cyfranogiad myfyrwyr yn y broses a'r angen am gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Ystyrir cynllunio ar gyfer trosglwyddo fel ymarfer 'ticio blychau' nad yw'n canolbwyntio ar anghenion unigol y myfyriwr;
- Dylai fod person penodedig yn gyfrifol am yr holl broses;
- Trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau, fel gwasanaethau i oedolion a phlant ac ysgolion a cholegau;
- Mae angen cynllunio'n gynnar. Caiff penderfyniadau eu gwneud yn rhy hwyr;
- Diffyg opsiynau a diffyg gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael;
- Paratoi myfyrwyr ar gyfer y newidiadau sydd o'u blaenau ar amser;
- Cynnwys rhieni a diffyg gwybodaeth;
- Mae angen cyngor/eiriolaeth ar fyfyrwyr;
- Ystyriaethau ariannol ar gyfer gwasanaethau a theuluoedd a chymhlethdodau o ran ariannu;
- Mae angen sicrhau bod asiantaethau a rhieni a myfyrwyr yn cyfathrebu'n effeithiol;
- Nid yw pob asiantaeth yn gweithredu'r cynllun;
- Diffyg adnoddau.

Prif negeseuon y **sefydliadau** oedd:
- Dylai cynllunio ar gyfer trosglwyddo ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ar anghenion y person ifanc;
- Dylai pob asiantaeth dan sylw gymryd rhan yn y broses gynllunio.

O safbwynt **awdurdodau lleol**:
- Cyfranogiad y person ifanc yn y broses gynllunio;
- Dylai pob asiantaeth gymryd rhan yn y broses gynllunio;
- Dylai'r broses ddechrau'n gynharach.

O safbwynt **teuluoedd**:
- Nid yw'r gwasanaethau'n gydgysylltiedig;
- Diffyg gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael;
- Dylai fod un gweithiwr allweddol ar gael drwy'r broses gyfan.

Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau gan **ddarparwyr**, yn cynnwys:
- Diffyg cynllunio cynnar;

- Diffyg gwybodaeth ac opsiynau;

O safbwynt **ysgolion**

- Dylai pob asiantaeth a gwasanaeth gymryd rhan yn y broses - nid yw hyn bob tro'n digwydd;
- Mae angen cyfathrebu priodol a throsglwyddo gwybodaeth rhwng asiantaethau;
- Dylai'r broses ganolbwyntio ar yr unigolyn.

## Atodiad D

**Detholiad o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002**[46]

**"Y Cynllun Trawsnewid**

**9:51** Mae'n **rhaid** i'r adolygiad blynyddol ym Mlwyddyn 9 ac unrhyw adolygiadau blynyddol dilynol hyd nes i'r person ifanc adael yr ysgol gynnwys llunio'r **Cynllun Trawsnewid** a'i adolygu wedi hynny. Dylai'r **Cynllun Trawsnewid** ddwyn ynghyd wybodaeth gan wahanol bobl yn yr ysgol a thu hwnt er mwyn cynllunio'n gydlynus ar gyfer y trawsnewid ym mywyd y person ifanc i fywyd oedolyn. Nid â threfniadau ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael yr ysgol yn unig y mae a wnelo'r Cynlluniau Trawsnewid pan gânt eu llunio gyntaf ym Mlwyddyn 9. Dylent gynllunio hefyd ar gyfer y ddarpariaeth sy'n dal i fynd rhagddi yn yr ysgol, o dan y datganiad anghenion addysgol arbennig a oruchwylir gan yr AALl.

**9:52** Dylai pawb sy'n ymwneud â'r broses gadw at yr egwyddorion sy'n sylfaen inatur trawsnewid a chynllunio trawsnewid a gofynion y bobl ifanc a'u teuluoedd. Dylid ystyried holl anghenion y plentyn wrth gynllunio'r trawsnewid.

**9:53** Pennaeth yr ysgol sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu'r gwaith o weithredu'r Cynllun Trawsnewid. Gyrfa Cymru fydd â'r rhan arweiniol yn y gwaith o sicrhau bod yr elfennau o'r Cynllun Trawsnewid sy'n ymwneud â'r newid ym mywyd y person ifanc i addysg bellach neu waith yn cael eu gweithredu.

**9:54** Dylai pob asiantaeth gydnabod ei chyfrifoldeb ariannol cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod o gynllunio'r trawsnewid. Dylai trefniadau cynllunio ar y cyd nodi'r gwahanol elfennau yn y ddarpariaeth a gynllunnir a'r asiantaethau sy'n gyfrifol am ariannu pob un o'r elfennau hynny, yn enwedig os argymhellir y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth ôl-16 mewn sefydliad preswyl. Ceir cyngor manwl ar egwyddorion a phrosesau cynllunio trawsnewid yn Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA.

**Rhan y myfyriwr mewn gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod trawsnewid**

**9:55** Dylid ceisio a chofnodi barn y bobl ifanc eu hunain ym mhob asesiad, ailasesiad ac adolygiad o Flwyddyn 9 ymlaen. Efallai y bydd angen cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru; cynghorwyr, eiriolwyr neu gwnselwyr myfyrwyr; athrawon a staff ysgol eraill; gweithwyr cymdeithasol neu gefnogwyr cyfoedion i gefnogi'r person ifanc yn y broses hon. Mae Pennod Tri o'r Cod hwn a Llawlyfr y Cynulliad Cenedlaethol o Arferion Da ar gyfer Plant ag AAA yn trafod yn fanwl sut y gellir helpu pobl ifanc i gymryd rhan lawn yn y broses hon.

[46] Pennod 9 – Adolygiad Blynyddol

**Swyddogaeth Gyrfa Cymru**

**9:56** Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr elfennau o'r Cynllun Trawsnewid sy'n ymwneud â'r cyfnod o symud i ddysgu pellach neu waith yn cael eu gweithredu. Dylai cynrychiolydd Gyrfa Cymru sicrhau ei fod/bod yn ymwybodol o'r holl bobl ifanc sydd ag AAA ym Mlwyddyn 8. Mae'n **rhaid** gwahodd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru i gyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9 ac mae'n **rhaid iddo/iddi wneud pob ymdrech i fod yn bresennol** os caiff y person ifanc ei ystyried yn ddigon aeddfed i ddechrau trafod opsiynau ar gyfer dysgu pellach a gyrfa. Weithiau, efallai na all Gyrfa Cymru anfon cynrychiolydd. Bryd hynny, dylai Gyrfa Cymru gynnig cyfweliad i roi arweiniad ar yrfaoedd i'r person ifanc a'i rieni/gwarcheidwaid cyn adolygiad blynyddol Blwyddyn 9. Dylai nodiadau'r cyfweliad fod ar gael yng nghyfarfod adolygiad blynyddol Blwyddyn 9 i helpu wrth lunio'r Cynllun Trawsnewid. Dylid gwahodd cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru i bob adolygiad blynyddol wedi hynny a disgwylir iddynt fod yn bresennol lle bo hynny'n briodol.

**9:57** Mae cyfarfodydd adolygu Blwyddyn 9 yn gychwyn proses o wneud penderfyniadau ar gyfer y tymor hwy. Dylai arweiniad galwedigaethol a roddir gan yr ysgol neu gynrychiolydd Gyrfa Cymru gynnwys gwybodaeth am addysg bellach a chyrsiau hyfforddi a dylent gymryd dymuniadau a theimladau'r person ifanc dan sylw i ystyriaeth. Dylai Gyrfa Cymru helpu'r person ifanc a'i rieni i benderfynu ar y ddarpariaeth fwyaf addas ar ôl cyrraedd 16 oed, dylai ddarparu gwasanaeth cwnsela a chefnogi, a dylai barhau i oruchwylio a derbyn gwybodaeth am y ddarpariaeth a ddewisir gan y person ifanc. Os penderfynir fod angen darpariaeth mewn coleg arbenigol, mae gan Gyrfa Cymru gyfrifoldeb arweiniol dros baratoi a chyflwyno ceisiadau am leoliadau i NCETW. Bydd angen gweithredu'r prosesau hyn ar y cyd â NCETW, swyddogion AAA yr AALl a phobl broffesiynol sy'n adnabod y person ifanc yn dda.

**Ymwneud adrannau gwasanaethau cymdeithasol**

**9:58** Mae'n **rhaid** i AALlau geisio gwybodaeth gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 5 o Ddeddf Pobl Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986, i ganfod a yw person ifanc sydd â datganiad o dan Rhan IV Deddf Addysg 1996 yn anabl (ac y gallai fod arno angen gwasanaethau gan yr awdurdod lleol pan fydd yn gadael yr ysgol).

**9:59** Mae mewnbwn aml-asiantaethol ym Mlwyddyn 9 yn bwysig i **bob** person ifanc sydd ag AAA. O dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf yr NHS a Gofal yn y Gymuned 1990, mae'n ofynnol i adrannau gwasanaethau cymdeithasol drefnu asesiad aml-ddisgyblaethol a darparu cynlluniau gofal i blant ac oedolion sydd ag anghenion arbennig sylweddol – gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau addysg bellach. Dylai adrannau gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gweithiwr cymdeithasol yn mynychu cyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9 ac yn cyfrannu at lunio'r Cynllun Trawsnewid lle bo person ifanc yn destun gorchymyn gofal, yn cael ei letya gan yr awdurdod lleol neu yn 'blentyn mewn angen'.

**Ymwneud y gwasanaethau iechyd**

**9:60** Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â rheolaeth a gofal y person ifanc ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer cynlluniau trawsnewid ac, os oes modd, dylent fod yn bresennol yng nghyfarfod adolygu blynyddol Blwyddyn 9. Dylent roi cyngor yngly^n â'r gwasanaethau y mae'n debygol y bydd eu hangen a dylent drafod trefniadau ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau gofal iechyd eilaidd oedolion gyda'r person ifanc, ei rieni a'i feddyg teulu. Dylent hwyluso unrhyw achosion a gyfeirir a'r gwaith trosglwyddo cofnodion, os oes angen, ar yr amod bod y person ifanc a'i rieni yn cydsynio ar sail y ffeithiau, a dylent drafod gyda Gyrfa Cymru yn ôl yr angen.

**Adolygiadau blynyddol o Flwyddyn 10 ymlaen**

**9:61** Mae'r ysgol yn dal yn gyfrifol am alw'r cyfarfodydd adolygu blynyddol hyd
nes i'r disgybl adael yr ysgol. Bydd rhai disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn aros yn yr ysgol ar ôl 16 oed. Mae'r AALlau yn dal yn gyfrifol am y disgyblion hyn hyd nes y byddant yn 19 oed. Ceir adegau pan fydd disgybl sy'n destun datganiad wedi cael ei ben-blwydd yn 19 cyn diwedd y flwyddyn academaidd neu cyn iddo gwblhau ei gwrs. Os yw disgybl yn dal ar gofrestr yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed, mae'n ofynnol i AALl gynnal datganiad tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pryd y caiff ei ben-blwydd yn 19.

**9:62** Beth bynnag y mae'r person ifanc yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol, mae i'r adolygiad blynyddol arwyddocâd ychwanegol wrth i'r person ifanc nesáu at 16 oed. Dylai cynrychiolydd o Gyrfa Cymru fynychu'r adolygiad ym Mlwyddyn 11 er mwyn sicrhau bod y Cynllun Trawsnewid yn cael ei ddiweddaru'n briodol. Ym mlwyddyn olaf y person ifanc yn yr ysgol, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd ar wahân o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 i sicrhau bod asesiad o'i anghenion pan fydd yn gadael ysgol yn cael ei gynnal ac y penderfynir ar y ddarpariaeth. Cyflawnir y ddyletswydd hon gan Gyrfa Cymru ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu adolygiad blynyddol y datganiad ym Mlwyddyn 11 ac i ystyried y Cynllun Trawsnewid gyda'r asesiad hwn er mwyn ymateb i'r mater mewn ffordd holistig. Os penderfynwyd eisoes ar y ddarpariaeth ôl-16, mae'n arfer da i bennaeth yr ysgol wahodd cynrychiolydd y darparwr i'r cyfarfod adolygu.

**Trosglwyddo gwybodaeth**

**9:63** Dylai awdurdodau lleol geisio cytundeb myfyrwyr a'u rhieni i drosglwyddo gwybodaeth (gan gynnwys datganiadau) o'r ysgol i'r sector addysg barhaus neu ddarpariaeth arall, ac egluro pwysigrwydd gwybodaeth o'r fath a pham y mae'n ddymunol ei bod yn cael ei throsglwyddo.

**9:64** Dylai pennaeth yr ysgol sicrhau, lle bo gan berson ifanc ddatganiad

anghenion addysgol arbennig, bod copi o’r datganiad ynghyd â chopi o’r adolygiad blynyddol diweddaraf, a’r Cynllun Trawsnewid, yn cael eu trosglwyddo i adran y gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw sefydliad a fydd yn cynnig darpariaeth ôl-16 i’r person ifanc, mewn digon o bryd fel y gellir trefnu cefnogaeth briodol. Os yw’n bosib y gallai fod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â lleoli myfyriwr mewn coleg arbenigol, dylid anfon copi o’r Cynllun Trawsnewid i swyddfa berthnasol NCETW.

**Myfyrwyr sydd heb ddatganiadau ond sydd ag anghenion addysgol Arbennig**

**9:65** Mewn rhai achosion, efallai y bydd gan fyfyriwr sy’n nesáu at 16 oed anghenion addysgol arbennig nad oes angen datganiad amdanynt, ond sy’n debygol o olygu bod angen rhywfaint o gefnogaeth os bydd yn mynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant. I sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn gallu gwneud penderfyniadau, ac i hwyluso trawsnewid llwyddiannus, mae’n bwysig eu bod yn cael help a chyfarwyddyd priodol. Gall hyn gynnwys darparu cyrsiau cyswllt ysgol/coleg neu leoliadau gwaith a dylai gynnwys y gwahanol asiantaethau lleol y mae a wnelont â’r myfyriwr.

**9:66** Mae Gyrfa Cymru’n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar yrfaoedd i bobl o bob oedran. Mae’n credu’n gryf mewn cefnogi pobl ifanc ddifreintiedig neu rai sy’n debygol o dangyflawni, yn cynnwys rhai sydd ag AAA ond sydd heb ddatganiad. Dylai Gyrfa Cymru roi gwybodaeth i ysgolion a fydd yn helpu’r myfyrwyr hyn i symud yn llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl gadael ysgol, gan gynnwys manylion mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol. Dylai ysgolion ymgynghori â Gyrfa Cymru a gwasanaethau eraill i sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei rhoi i ddarparwyr addysg ôl-16 gyda chydsyniad y person ifanc ac mewn digon o bryd fel y gall y darparwr ôl-16 drefnu’r gefnogaeth briodol.

**9:67** Efallai y bydd ysgolion, mewn ymgynghoriad â chynrychiolydd Gyrfa Cymru, am lunio Cynlluniau Trawsnewid i gefnogi’r broses hon, pa un bynnag a yw’r person ifanc yn aros yn yr ysgol ar ôl 16 oed neu’n symud i ddarpariaeth arall. Bydd angen cydweithrediad agos gyda staff yr AALl a gweithwyr proffesiynol eraill sy’n ymwneud â’r person ifanc, er mwyn darparu Cynllun Trawsnewid priodol. I gynorthwyo’r broses hon byddai’n arfer da i bennaeth yr ysgol, mewn ymgynghoriad â chynrychiolydd Gyrfa Cymru, roi rhestr i weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau iechyd a’r gwasanaethau cymdeithasol o’r disgyblion ym Mlwyddyn 9 sydd ag AAA ond sydd heb ddatganiadau ac y mae’r ysgol o’r farn y byddai’n briodol paratoi cynllun trawsnewid ar eu cyfer.

**Plant sy’n destun gorchymyn gofal neu a letyir gan awdurdod lleol**

**9:68** O dan ddarpariaethau Deddf Plant (Gadael Gofal) 2001, bydd pob person ifanc cymwys sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol ar eu pen-blwydd yn 16, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, yn cael Cynllun Llwybr. Bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y cynllun gofal a’r cynllun addysg personol, gan fapio llwybr at annibyniaeth, yn cynnwys addysg, hyfforddiant a

chyflogaeth. Yn ogystal, bydd gofyn i'r awdurdod lleol benodi cynghorwr personol ar gyfer pob un o'r bobl ifanc hyn. Rhaid i'r cynghorwr weithio gyda'r person ifanc, Gyrfa Cymru ac eraill i baratoi'r Cynllun Llwybr a sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.

**9:69** Mae'n bwysig bod y cynghorwr personol yn sicrhau bod y person ifanc yn gwbl ymwybodol o gyfrifoldebau'r awdurdod lleol tuag ato ac mae'n bwysig iddo gytuno gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau eraill a'r person ifanc ar y gwasanaethau sydd i'w darparu. Os yw person ifanc wedi bod yn derbyn gofal gyda rhieni maeth neu mewn lleoliad preswyl neu'n mynychu ysgol breswyl y tu allan i ardal ei awdurdod lleol ei hun, dylai cynghorwr personol y person ifanc ar ran yr awdurdod cyfrifol ynghyd â'r AALl geisio sicrhau cyswllt rhwng yr holl AALlau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol perthnasol. Bydd yn hanfodol hefyd bod cwmni lleol Gyrfa Cymru (h.y. lleol i'r lleoliad preswyl) yn cadw mewn cysylltiad clòs â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ardal cartref y person ifanc. Dylai Gyrfa Cymru sicrhau bod y cofnodion perthnasol sy'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a roddwyd ar gyfleoedd dysgu a gyrfaoedd ar gael i Wasanaeth Gyrfaoedd cartref y person ifanc. Yr awdurdod cyfrifol yw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y person ifanc neu, yn achos person ifanc sydd wedi gadael gofal, yr awdurdod a oedd yn gofalu amdano ddiwethaf."

**Atodiad Dd**

**Detholiad o Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pontio**[47]

**PONTIO**
SAFONAU:

***Mae pobl ifanc sydd eisiau gwasanaethau parhaus, fel rhai sy'n anabl neu'n dioddef salwch cronig, plant ifanc sydd â salwch neu anhwylderau meddyliol parhaus, pobl ifanc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a rhai sy'n gadael gofal, yn cael cynnig pob math o wasanaethau amlasiantaeth wedi'u cydgysylltu yn unol â'r anghenion a aseswyd – fel eu bod yn pontio'n effeithiol o blentyndod i fyd oedolion.***

| CAMAU ALLWEDDOL: | Cyfrifoldeb pa sefydliad |
|---|---|
| **5.32** Mae system rhyng-sefydliadau i nodi'r plant hynny fydd eisiau pontio i wasanaethau oedolion flwyddyn cyn eu penblwydd yn 14 oed (ym mlwyddyn 8). Mae hyn yn llywio cynlluniau strategol pob sefydliad. | **BILl**<br>**Ymdd. GIG**<br>**ALl** |
| **5.33** Mae **gweithiwr trosglwyddo allweddol** yn cael ei benodi ar gyfer pob person ifanc 14 oed. Eu cyfrifoldeb nhw yw gofalu bod pobl ifanc, eu teuluoedd a'r holl asiantaethau perthnasol yn gysylltiedig â'r broses gynllunio, fel sy'n briodol. Mae'r **gweithiwr trosglwyddo allweddol** yn cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses bontio, a bydd yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn cysylltu â'r person ifanc tan ei fod yn 25 oed. | **BILl**<br>**Ymdd. GIG**<br>**ALl** |
| **5.34** Mae pobl ifanc anabl yn gallu cael gwybodaeth ar sut i gael gwasanaethau a chyfleusterau yn y gymuned leol, gan gynnwys gwybodaeth am:<br>• Swyddi;<br>• Tai;<br>• Hyfforddiant;<br>• Hamdden;<br>• Cyfleoedd addysgol;<br>• Mynd ati i fyw'n annibynnol;<br>• Y broses o bontio i wasanaethau oedolion yn yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd;<br>• Cymorth i wneud y gorau o'r Taliadau Uniongyrchol sydd | **BILl**<br>**Ymdd. GIG**<br>**ALl** |

[47] Pennod 5 – Plant a Phobl Ifanc anabl

| | |
|---|---|
| ar gael i rai 16 ac 17 oed;<br>• Grwpiau cymorth a mudiadau gwirfoddol. | |

| | Cyfrifoldeb pa sefydliad |
|---|---|
| **5.35** Mae un **cynllun pontio sefydliadau ar y cyd** yn cael ei<br>baratoi i bob person ifanc anabl sy'n sail ar gyfer **Asesiad Unedig** ym maes gwasanaethau oedolion ac sy'n nodi'r trefniadau arbennig i gael cymorth a gwasanaethau parhaus, gan gynnwys:<br><br>Cymorth personol;<br>• Gofynion tai (gan gynnwys tai â chymorth);<br>• Addysg, hyfforddiant a dysgu gydol oes, gan gynnwys cyfleoedd i gael profiad gwaith;<br>• Gyrfaoedd gan gynnwys cyngor arbenigol;<br>• Swyddi;<br>• Meithrin cysylltiadau cymdeithasol gan gynnwys gweithgareddau hamdden;<br>• Seibiant byr;<br>• Sgiliau ymarferol a sgiliau eraill;<br>• Anghenion iechyd gan gynnwys cynghori ar faterion genetig ac iechyd rhywiol;<br>• Gofal parhaus;<br>• Trafnidiaeth briodol;<br>• Anghenion cyfathrebu;<br>• Gofal cartref a gofal dydd;<br>• Cymorth ariannol (gan gynnwys budd-daliadau a thaliadau uniongyrchol);<br>• Manylion y trefniadau ariannol am wasanaethau arbenigol sydd eu hangen i fynd i'r afael ag anghenion penodol. | BILl<br>Ymdd. GIG<br>ALl |
| **5.36** Mae **cynllun pontio sefydliadau ar y cyd** yn cael ei adolygu<br>bob blwyddyn o leiaf, neu bob chwe mis yn achos pobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn unol â rheoliadau statudol *Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000*[41]. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu bob tymor yn ystod y flwyddyn cyn eu pen-blwydd yn 18 oed. | BILl<br>Ymdd. GIG<br>ALl |
| **5.37** Mae gwybodaeth gyfun y **cynlluniau pontio sefydliadau ar**<br>**y cyd** yn cael ei hanfon i Bartneriaethau Fframwaith Pobl Ifanc yr ardal i lywio'r cynlluniau strategol. | BILl<br>Ymdd. GIG<br>ALl **CYPFPs"** |

**Atodiad E**

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| CBI | Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| CYPFP | Fframwaith Plant a Phobl Ifanc |
| Estyn | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| AB | Addysg Bellach |
| FSB | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| AU | Addysg Uwch |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru s |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| LLDD | Dysgwyr ag Anawsterau Dysgu neu Anableddau |
| NSF | Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol |
| SCOPE | Cymdeithas Parlys yr Ymennydd |
| UWIC | Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd |